This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

**Usage guidelines**

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

**About Google Book Search**

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at http://books.google.com/

600086430R

# CYMRU DAN FELLDITH BABEL.

---

# PA FODD
## YR ADNEWYDDIR UNDEB EGLWYSIG PENTECOST?

### SYLWADAU AR PSALM CXXII.

---

GAN
Y Parch. HENRY T. EDWARDS, B.A.,
(*Rhydychen*,)
FICER CAERNARFON.

---

"Wele, yr allor a rwygir, a'r lludw sydd arni a dywelltir."
1 Bren. xiii. 3.

Καλῶς ἀπεφήναντο τἀγαθὸν, οὗ πάντ' ἐφίεται.
Aristotle.—*Moesddysg* I.I.

ὃν οὖν ἀγνοοῦντες εὐσεβεῖτε, τοῦτον ἐγὼ καταγγέλλω ὑμῖν.
Actau xvii. 23.

CAERNARFON:
ARGRAFFWYD GAN H. HUMPHREYS, CASTLE SQUARE.
1871.

# CYMRU DAN FELLDITH BABEL.

## PA FODD

## YR ADNEWYDDIR UNDEB EGLWYSIG PENTECOST?

### PREGETH AR PSALM CXXII.

GAN

**Y Parch. HENRY T. EDWARDS, B.A.,**

(*Rhydychen*,)

FICER CAERNARFON.

**"Wele, yr allor a rwygir, a'r lludw sydd arni a dywelltir."**
**(1 Bren. xiii. 3.)**

CAERNARFON:

ARGRAFFWYD GAN H. HUMPHREYS, CASTLE SQUARE.

1871.

D.

BODLEIAN
20·7·1897
LIBRARY

# RHAGDRAITH.

YN aml gwrthwynebir UNDEB gwirioneddol trwy ymresymiadau yn erbyn gau undeb. Yn y byd politicaidd y mae y "Communists"—awdwyr annhrefn digyfraith--yn gwrthwynebu trefn cyfraith rhyddid trwy groch lefain yn erbyn Gorthrwm. Felly amddiffynwyr ANGHYTTUNDEBAU Ymneillduol—rhieni addysg ddigrefydd, ac edmygwyr llywodraeth ddidduw—a wrthwynebant Undeb yr Eglwys Genhedlaethol trwy lefain yn erbyn gormes estronol Pabyddiaeth. Y mae angenrhaid ysprydol Undeb wedi ei osod ar ddynolryw o herwydd fod Personau y Duwdod, ar ddelw yr Hwn y crewyd dyn, yn Un—"Yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd." Y cyntaf a neillduodd ei hunan oddiwrth Undeb yr Eglwys Gyn-ddiluwiol, yng nghyfundrefn yr hon yr oedd Duw yn dangos ei ŵydd mewn edrychiad ysprydol ar Abel a'i offrwm, oedd Cain—"A Chain a aeth allan o ŵydd yr Arglwydd." Yn Arch Noah adnewyddwyd Undeb y teulu dynol. Yn Babel ail gollwyd. Paham? Trwy bechod uchelgais dyn. Camddefnyddiwyd y nerth undebol, dan frenhiniaeth Nimrod, i adeiladu tŵr o bridd a chlai, "a'i nen hyd y nefoedd." Oddiyno "gwasgarodd yr Arglwydd hwynt ar hyd wyneb yr holl ddaear." Dan felldith drymmaf y gwasgariad y mae cenhedloedd isaf, tywyllaf y ddaear—barbariaid America, Awstralia, Affrica, yn parhau yn ymrannedig mewn miloedd o fân lwythau. Trwy adferiad graddol bendith Unoliaeth y mae y cenhedloedd goleuedig yn ail ennill Undeb Gwladol, trwy ymostwng i rwymedigaeth Un orsedd ym mhob gwlad.

Ar ddydd y Pentecost ail ddatguddiwyd cynddelw yr Undeb ysprydol. Pa undeb a welwyd ar yr Eglwys yno? Undeb Un Ffydd Gyffredinol, yn datgan ei hunan heb ladd y neillduolion cenhedlaethol. Parthiaid, Mediaid, Elamitiaid—pob cenhedl dan ei henw neillduol—a glywsant wirioneddau Duw yn eu hiaith eu hunain. Rhwygwyd yr Undeb yna drachefn. Paham? Nimrod newydd—Esgob Rhufain—mewn uchelgais am frenhiniaeth eglwysig, a geisiodd ddiddymu neillduolion rhyddid Eglwysi Cenhedlaethol trwy orfodi pob cenhedl i lefaru iaith

neillduol Rhufain. Cyfododd adeilad o bridd a chlai, i geisio myned, yn athrawiaeth ryfygus yr Anffaeledigrwydd, "a'i nen tua'r nefoedd." Dyna wreiddyn anghyttundebau Babelaidd yr oesoedd hyn. Y gwir Undeb o fewn ein cyrhaedd ydyw Undeb yr "Un Gatholig ac Apostolig Eglwys" yn ein cenhedl ni. Yna pan ail greir Undeb yr Un Eglwys Genhedlaethol o'r naill du ymhob cenedl, gwelir drachefn, yn amser da Duw, yr Eglwysi Cenhedlaethol oll yn ail gyfarfod mewn cymmundeb puredig Un Eglwys Gyfrwng-genhedlaethol, "a chenhedloedd y rhai cadwedig a rodiant yn ei goleuni hi." Dechreuwn lanhau y byd trwy ysgubo bob un o flaen ei ddrws ei hunan. Ceisiwn ail unoli Eglwysi y Byd trwy ymuno â'r Un Eglwys Lân Gatholig yn ein cenhedl ein hunain. Y mae undeb yr Un Eglwys Genhedlaethol gymmaint yn ysprydol gryfach a phrydferthach na thryblith Babelaidd y sectau, ag ydyw undeb gwladol Llywodraeth Prydain yn well na gwasgariadau llwythau anwaraidd y Gwyllt-fyd.

# PREGETH.

---

SALM CXXII.

"Llawenychais pan ddywedent wrthyf, Awn i dŷ'r Arglwydd.
Ein traed a safant o fewn dy byrth di, O Jerusalem.
Jerusalem a adeiladwyd fel dinas wedi ei chyd-gyssylltu ynddi ei hun.
Yno yr esgyn y llwythau, llwythau'r Arglwydd, yn dystiolaeth i Israel, i foliannu enw'r Arglwydd.
Canys yno y gosodwyd gorseddfeingciau barn, gorseddfeingciau tŷ Dafydd.
Dymunwch heddwch Jerusalem; llwydded y rhai a'th hoffant.
Heddwch fyddo o fewn dy ragfur, a ffyniant yn dy balasau.
Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion y dywedaf yn awr, Heddwch fyddo i ti.
Er mwyn tŷ'r Arglwydd ein Duw y ceisiaf i ti ddaioni."

Y mae y Salmydd yn datgan yma ei fod ef wedi cael y gair ag oedd yn effeithiol i'w gyflawni â llawenydd. Hwnnw yw y gair i glywed pa un y mae enaid dyn er oesoedd ac er cenhedlaethau wedi bod yn clustfeinio.

Ymhob oes ac ymhob gwlad y mae meibion dynion wedi bod yn ceisio llawenydd a dedwyddyd, "os gallent ymbalfalu am dano ef, a'i gael," (Actau xvii. 27.) Yr ymdrech yna ydyw y "llafur blin a roddes Duw ar feibion dynion i ymguro ynddo." (Pregethwr i. 13.) Y mae pob dyn yn ei ffordd ei hunan yn rhoddi ei fryd ar geisio chwilio trwy y ddoethineb sydd ynddo, cyn belled ag y cyrhaedda, pa fodd y gallo "orfoleddu a llawenychu dros ei holl ddyddiau." (Salm xv. 14.)

Yr ymchwiliad yna ydyw y dyfnbwngc sydd wedi bod dan ystyriaeth Doethion pob cenhedl. Y mae

awyddfryd cyffredinol y creadur wedi datgan ei hun mewn gwahanol ddulliau o ymadroddion, ond yr un ydyw natur y cwestiwn hanfodol sydd wedi cael ei ofyn gan ddynoliaeth ar hyd yr oesoedd. "Pa fodd y gallaf gyrhaedd dedwyddyd? Pa fodd y câf lawenydd?" Dyna oedd y diben oedd gan Jacob mewn golwg yn awr ei brofiad hynod gynt yn Peniel, pan y câdd ganfod mewn gweledigaeth wyneb y Bywyd Tragywyddol, (Gen. xxxii. 29,) "ac yr ymofynodd ac a ddywedodd, Mynega, attolwg, dy enw." Yr un awyddfryd oedd yn cymhell y gŵr yn ngwlad Us i ofyn, "Pa le y ceir doethineb." (Job xxvii. 12.) Gwir y dywedodd y Salmydd am gyffredinolrwydd yr ymchwiliad hwn,—"Llawer sydd yn dywedyd, Pwy a ddengys i ni ddaioni?" (Salm iv. 6.) Y dwfn bwngc dyrys yna oedd yn cymhell y Rhaglaw Rhufeinig anghyfiawn i ofyn, "Pa beth yw gwirionedd?" (Ioan xviii. 38.) Am y tir safadwy yna i sefyll arno yr oedd Ceidwad y carchar yn Philippi yn holi, pan y gweledd ef y bywyd daearol yn ymollwng mewn cryndod dan ei draed, "Beth sydd raid i mi ei wneuthur fel y byddwyf cadwedig?" (Actau xvi. 30.) Nid oedd holl ymresymmiadau cywrain Philosophyddion Groeg a Rhufain ynghylch trigle y "Summum bonum," ond dulliau gwahanol o ymbalfalu tuag at y nôd ag y mae y Salmydd yn proffesu ei fod wedi ei gyrhaedd pan y dyweda, "Llawenychais." Y mae awyddfryd y creadur yn disgwyl yn nirgelwch ei galon am ddatguddiad y diben hwn. Yn nirgelfanau dy enaid yr ydwyt tithau, ddarllenydd, yn gofyn y cwestiwn hwn o ddydd i ddydd, "Pa fodd y gallaf gael llawenydd a gwynfyd, a bod yn happus a dedwydd yn fy mywyd?"

Y mae o bwys annhraethol i bob enaid gael gafael ar yr atteb gwirioneddol i'r holiad yma. Beth yw yr atteb? Er mwyn cael golwg ar iawn weithrediad pob peiriant a gynllunir gan allu creadigol dyn, y mae yn rhaid chwilio pa un oedd y diben ag y ffurfiwyd i'w gyflawni. Pan y mae yn atteb y diben hwnnw y mae yn gweithredu yn ol deddf ei wneuthuriad, ac yn cyf-

iawnhau parhad ei fodolaeth. Yn yr un modd, er mwyn cael golwg eglur ar natur iechydwriaeth dyn, y mae yn rhaid myned yn ol at hanes ei "Genesis," neu ei genhedliad gan y Creawdwr.

Datguddir i ni yno bod dyn wedi ei greu i ddwyn ynddo ei hunan adlewyrchiad o wynebpryd y Tad, i gyfrannogi yn mywyd ei fod meidrol ei hun o fywyd Tragywyddol y Bod Anfeidrol yr hwn a'i creodd ar y cynllun yma. (Gen. i. 26,) "Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain."

Cyn y cwymp yr oedd dynoliaeth yn dwyn y ddelw ddwyfol; yr oedd y bod meidrol yn atteb ymhob symmudiad i'r Bod Anfeidrol; yr oedd y creadur yn ol cynllun ei greadigaeth yn cydfod â'r Creawdwr, gan gyfranogi o'i sancteiddrwydd, a'i allu, a'i ddoethineb, a'i gariad, a'r holl briodoliaethau sydd yn cyfansoddi cyflawnder delw gwyneb-pryd y Duwdod. Yn yr amser yna yr oedd y cymmod a sefydlwyd rhwng Duwdod a dyndod yng nghynllun y Creawdwr heb ei dorri. O ganlyniad yr oedd llawenydd dyn heb ei dywyllu.

Tra yn arhos yngwŷdd ei Dad yr oedd yn gallu dywedyd yn ddiau, "Gwnaethost yn hyspys i mi ffyrdd y Bywyd: ti a'm cyflawni o lawenydd â'th wynebpryd." (Actau ii. 28.)

Ond trwy weithrediadau dirgelwch pechod, gwnaethpwyd anghydfod rhwng ewyllys dyn ac ewyllys ei Greawdwr, ac ymddieithrodd dyn oddiwrth fuchedd Dduw. Yn yr ymddieithriad hynny collodd dyn y golwg ar oleuni gwynebpryd y Bywyd tragywyddol, a syrthiodd i dywyllwch moesol. "Efe a yrrodd allan y dyn, ac a osododd o'r tu dwyrain i ardd Eden y cerubiaid, â chleddyf tanllyd ysgwydedig, i gadw ffordd Pren y Bywyd." (Gen. iii. 24.)

Gan fod dyn fel yna wedi colli golwg ar ddelw Duw, yng ngoleuni yr hwn yr oedd ef yn cael llawenydd a dedwyddyd, pa fodd y gall ail gyrhaedd ei ddedwyddyd cyntefig? Y mae yn rhaid iddo gael ei adnewyddu drachefn ar ddelw ysprydol yr Hwn a'i creodd ef. Ond y mae y ddelw yna yn guddiedig, wedi cilio o'r

tu ol i adenydd y cerubiaid, ac amgyrhaeddiadau y cleddyf tanllyd ysgwydedig. Y ddelw ydyw y dirgelwch oedd guddiedig er oesoedd ac er cenhedlaethau. Pa fodd yr ail amlygir y ddelw yna i feibion dynion, fel trwy edrych ar ei phriodoliaethau â llygad ffydd a gwyneb agored, y newidier hwynt i'r un llun, o ogoniant i ogoniant? Ail amlygu a gogoneddu y ddelw ydyw gwaith corph yr Eglwys. "Fel y byddai yr awr hon yn hyspys i'r tywysogaethau ac i'r awdurdodau, yn y nefolion leoedd, trwy'r Eglwys, fawr amryw ddoethineb Duw." (Eph. iii. 10.) Felly y dywaid y Salmydd am eglurhad gwynebpryd Duw yn yr Eglwys, "Duw yn ei phalasau a adwaenir yn amddiffynfa." (Salm xlvii. 3.)

Yn yr Eglwys y mae Duw wedi ail agor ffordd pren y bywyd a gauwyd gynt yn Eden. I ffyrdd tangnefedd y bywyd y mae y Salmydd yn cyfeirio ei lwybrau pan y mae yn dywedyd, "Ein traed a safant o fewn dy byrth di, O Jerusalem." (ad. 2.)

Yn y Salm hon y mae y Salmydd yn clodfori yr Eglwys dan yr enw Jerusalem. Yn niwedd y Salm y mae yn dywedyd fod ei ganiad o fawl wedi ei ysprydoli trwy edrych ar yr Eglwys dan ddau olygiad gwahanol. Ar un ochr yr oedd yn canfod gwaith yr Eglwys yn dwyn iachawdwriaeth, llawenydd, a dedwyddyd i feibion dynion, ac yn canu, "Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion y dywedaf yn awr, Heddwch fyddo i ti." (adn. 8.) Ar yr ochr arall yr oedd yn canfod ei gwaith yn amlygu prydferthwch sancteiddrwydd a goleuni gwynebpryd Duw, megis ym mhreswylfa ei ogoniant. "Er mwyn tŷ'r Arglwydd ein Duw y ceisiaf i ti ddaioni," (adn. 9.)

Awn yn mlaen i ystyried—

I. Dechreuad a Diwedd ei Gan o Fawl=Ardderchogrwydd yr Eglwys, fel y mynegir yn yr adnod gyntaf a'r adnod olaf o'r Salm; sef, Preswyliad Duw o'i mewn,—"Tŷ yr Arglwydd."

II. Y NODAU TRWY BA RAI YR ADNABYDDIR YR EGLWYS.

1. Undeb mewnol,—"Jerusalem a adeiladwyd fel dinas wedi ei chyd-gyssylltu ynddi ei hun."

2. Undeb cymdeithas,—"Yno yr esgyn y llwythau, llwythau'r Arglwydd, yn dystiolaeth i Israel i foliannu enw'r Arglwydd."

3. Undeb barnol,—"Yno y gosodwyd gorseddfeingciau barn, gorseddfeingciau tŷ Dafydd."

III. DEISYFIADAU DROS YR EGLWYS.

"Dymunwch heddwch Jerusalem; llwydded y rhai a'th hoffant. Heddwch fyddo o fewn dy ragfur, a ffyniant yn dy balasau." "Heddwch fyddo i ti." "Ceisiaf ddaioni i ti."

I. TY'R ARGLWYDD.

Y mae dyn wedi colli ei lawenydd trwy golli delw a llun moesol gwyneb Duw, ar gyffelybiaeth yr Hwn y crewyd ef. Nid oes modd i ddyn gael ei adferu ond trwy gael cyfrannogiad etto o ddelw Duw, mewn cymdeithas gyda'r Tad. Y ddelw guddiedig yna ydyw yr Iawn, a thrwy gael cyfrannogiad o'i phriodoliaethau bywiol, y mae dyn yn cael ei gyf-IAWN-hau. Ond er mwyn cael y cyfrannogiad yma, y mae yn rhaid i ddyn gael golwg ar ddelw y Bywyd Tragywyddol. Am hynny dywed y Salmydd, "Myfi a edrychaf ar dy wyneb mewn cyfiawnder; digonir fi pan ddihunwyf â'th ddelw di." (Salm xvii. 15.) Ond pa fodd y mae i'r enaid gael yr edrychiad â llygad ffydd ar wyneb Duw? Y mae yn dadlenu ei wyneb yn yr Eglwys. "Gwelsant dy fynediad, O Dduw; mynediad fy Mrenhin a'm Duw yn y cyssegr." (Salm lxviii. 24.) Am hynny y mae ardderchogrwydd yr Eglwys yn tarddu oddiwrth y ffaith gadwedigol, mai yn ei chynteddau ysprydol y mae Duw yn datguddio ei bresennoldeb, ac yn ymgyfarfod âg enaid dyn, i'w adnewyddu ar ei lun dwyfol ei hunan. Nid rhyfeddol gan hynny bod y Salmydd yn dechreu ac yn diweddu y gân hon o

fawl i'r Eglwys trwy gyfeirio at ganolbwynt ei gogoniant, "Tŷ yr Arglwydd."

Ond medd yr enaid anianol, "Pa fodd y gall fod tŷ i'r Arglwydd? Pa fodd y gall y Bod Anfeidrol breswylio o fewn terfynau cyfundrefn feidrol y deml ddaearol?" Er mwyn atteb y cwestiwn yn iawn y mae yn rhaid ei ystyried o dan ddau olygiad gwahanol. Y mae yn rhaid ei ystyried mewn perthynas i Dduw, ac mewn perthynas i ddyn. Mewn un ystyr y mae yn wir nad oes yr un tŷ neu gyfundrefn yn cynnwys o'r naill du y Duw anfeidrol, yr hwn sydd yn "llon'd tragywyddoldeb maith ei hun." Ond mewn ystyr arall y mae Duw, trwy gyfrwng cyfundrefn feidrol, yn amlygu gwedd ei wyneb i enaid dyn mewn modd neillduol, ac yn dwyn i'w olwg oleuni nad oes modd ei ganfod ond o fewn terfynau y gyfundrefn hono. Mewn perthynas i'w Fod Anfeidrol yr oedd Solomon yn dywedyd am Dduw, "Ai gwir yw y preswylia Duw gyda dyn ar y ddaear? Wele'r nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ni allant dy amgyffred: pa faint llai y dichon y tŷ hwn a adeiledais i?" (1 Bren. viii. 28.) Ar yr un perthynas yr oedd Sant Paul yn edrych pan yn dywedyd, "Y Duw a wnaeth y byd, a phob peth sydd ynddo, gan ei fod yn Arglwydd nef a daear, nid yw yn trigo mewn temlau o waith dwylaw." Act. xvii. 24.

O'r gwrthwyneb, mewn perthynas i brofiad dyn yn ei ymwybodolrwydd, o oleuni neillduol gwynebpryd Duw yn llewyrchu yng nghynnullfan y cyfryngau gosodedig, y dywedodd y Salmydd. "Arglwydd, hoffais drigfan dy dŷ, a lle preswylfa dy ogoniant." (Salm xxxi. 8.) Gyda golwg ar ymddatguddiad delw Duw mewn llewyrchiad ysprydol trwy gyfundrefn osodedig ei Eglwys, y dywedodd mewn man arall, "Ymddisgleiria, yr Hwn wyt yn eistedd rhwng y cerubiaid." (Salm lxxx. 1.) Yn yr un profiad y llefarodd Esay, "Gwelais yr Arglwydd yn eistedd ar eisteddfa uchel a dyrchafedig, a'i odre yn llenwi'r deml." (Esay vi. 1.) Yn yr un modd y mae yr Haul anianol yn bresennol yn ei wres, a'i allu, a'i oleuni ymhob rhan o'r ffurfafen.

"O eithaf y nefoedd y mae ei fynediad ef allan, a'i amgylchiad hyd eu heithafoedd hwynt, ac nid ymgudd dim oddiwrth ei wres ef." (Salm xix. 6.) Ond o fewn cylch y pellddrych, y mae modd casglu pelydrau yr haul at eu gilydd yn eu nerth, nes y maent yn datguddio i lygad dyn ryfeddodau nad yw yn bossibl iddo eu canfod heb syllu yn ol trefniadau y cynnullfan gosodedig. Felly, er nad ydyw Duw yn cyfyngu ei bresennoldeb mewn un man, eto yng nghynullfan ei dŷ y mae yn cydgasglu, yn y gyfundrefn sydd yn amlygu cyflawnder ei briodoliaethau, holl belydrau Ei wynebpryd, nes y mae yr enaid yn medru edrych "âg wyneb agored ar ogoniant yr Arglwydd." (2 Cor. iii. 18.)

Yn holl oesoedd y byd y mae Duw wedi parhau, mewn graddau fwy neu lai eglur, i amlygu ei wynebpryd i ddynoliaeth trwy yr Eglwys. Yn yr oes batriarchaidd nid oedd yr Arglwydd ddim wedi adeiladu tŷ yn breswylfod iddo ei hunan,—ddim wedi cwblffurfio cyfundrefn i ddatguddio y Bywyd tragywyddol.

Ond er nad oedd ef ddim yn arhos yn ei Gynddrychioldeb goruwchnaturiol gyda'r Patriarchiaid, yr oedd ef yn ymweled âg hwynt yn aml, yn arhos am amser, ac yn gadael bendith ar ei ol trwy argraffu o'r newydd ryw addewid ddwyfol ar ymwybodrwydd ysprydol y Credadyn.

Yn enaid Abraham, yn ei amser, yr oedd cynnullfan pelydrau goleuni y gwynebpryd Dwyfol. Yn ymwybodolrwydd Tad y Ffyddloniaid y dewisodd yr Arglwydd i osod ei enw. "Ymddangosodd yr Arglwydd i Abram, ac a ddywedodd wrtho, Myfi yw Duw Hollalluog: rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith." (Gen. xvii. 1.) Yn yr un modd wedi marwolaeth Abraham bu yr Arglwydd yn gosod ei babell am ennyd fechan fwy nag unwaith gydag Isaac. "A'r Arglwydd a ymddangosasai iddo ef, ac a ddywedasai, Na ddos i wared i'r Aipht: arhos yn y wlad a ddywedwyf fi wrthyt." (Gen. xxvi. 2.) Gyda Jacob hefyd yng ngwyliadwriaethau'r nos bu yr Arglwydd yn arhos yn Bethel ac yn deffro ei enaid ef trwy

fawrhydi ei wynebpryd i lefain mewn parchedig ofn, "Diau fod yr Arglwydd yn y lle hwn, ac nis gwyddwn i. Ac efe a ofnodd ac a ddywedodd, Mor ofnadwy yw'r lle hwn! nid oes yma ond tŷ i Dduw, a dyma borth y nefoedd." (Gen. xxviii. 16. 17.) Yn ol yr un addewid y daeth angel y cynddrychioldeb i ymweled â Moses, yr hwn a ddewisodd yr Arglwydd, ar fynydd Duw yn Horeb. "Angel yr Arglwydd a ymddangosodd iddo ef mewn fflam dân o ganol perth." (Exodus iii. 2.) Ar ol amlygu goleuni ei wynebpryd yn yr ymddangosiad tanllyd yna gosododd ei enw i breswylio o'r newydd yn ymwybodolrwydd ei genhad etholedig. "Duw a ddywedodd wrth Moses, YDWYF YR HWN YDWYF." (Exodus iii. 14.) Felly hefyd ar ol y waredigaeth allan o'r Aipht, ymddangosodd Duw i Moses wyneb yn wyneb ar fynydd Sinai, a mynydd Horeb, ac a anfonodd ei lais i hyfforddio y bobl o ganol y tywyllwch a'r tân, gan draddodi y ddeddf iddynt mewn dirgelwch trwy weinidogaeth gyfryngol Moses, yr hwn a nesaodd i dderbyn y dystiolaeth.

Ond pan ddaeth yr amser gosodedig rhyngodd bodd i Dduw, trwy gyfrwng cyfundrefn o'i appwyntiad ei hunan ddyfod i breswylio yn fwy arhosol gyda'i bobl. Gorchymynodd i Moses adeiladu pabell y cyfarfod, i fod yn ganolbwynt ysprydol yr Eglwys yn yr anialwch, ac o'i mewn archodd iddo ddodi Arch y Dystiolaeth yn dwyn y Drugareddfa dan orchuddiad esgyll y cerubiaid euraidd oeddynt megis yn cadw ffordd Pren y Bywyd yn y cyssegr. Yn y fan sancteiddiolaf hono addawodd yr Arglwydd amlygu gwedd ei wyneb yn neillduol, "Mi a gyfarfyddaf â thi yno, ac a lefaraf wrthyt oddiar y Drugareddfa, oddirhwng y ddau gerub y rhai a fyddant ar Arch y Dystiolaeth, yr holl bethau a orchymynwyd wrthyt i feibion Israel." (Ex. xxv. 22.)

Yn yr un cyssegr sancteiddiolaf, o fewn yr un wahanlen, trwy gyflawnder arwyddoccâd ysprydol, yr oedd holl briodoliaethau Duw—yr Undeb, yr Hollalluogrwydd, y Tragwyddoldeb, y Doethineb, y Sanct-

eiddrwydd, y Cyfiawnder, a'r Cariad—ag oeddynt wedi ymddangos yn ei weithrediadau tuag at ei bobl, yn ymgasglu mewn cwmmwl o ogoniant.

Yr oedd y cydrychioldeb goruwch-naturiol, er ei fod yn arhos yn neillduol yn y dirgelwch o fewn y wahanlen, yn taflu ei ddylanwad dros yr holl babell. "Cwmmwl a orchuddiodd babell y cyfarfod, a gogoniant yr Arglwydd a lanwodd y Tabernacl." (Exodus xl. 34.)

Mewn dirgelwch yr oedd Duw yn amlygu ei wyneb hyd yn nod i'r Archoffeiriad oedd yn cael myned o fewn y wahanlen. Nid oedd ef ddim yn cael syllu ar y gwynebpryd Dwyfol yn ddigyfrwng, ond trwy fwg yr arogl-darth.

"Rhodded yr arogl-darth ar y tân, ger bron yr Arglwydd; fel y cuddio mwg yr arogl-darth y drugareddfa, yr hon sydd ar y dystiolaeth, ac na byddo efe farw." (Lefiticus xvi. 13.)

Arch y dystiolaeth, yn rhinwedd Presennoldeb Duw ag oedd yn arhos arni, oedd canolbwynt holl fywyd yr Eglwys yn yr anialwch. Nid oedd dim ond un arch, ac un drugareddfa, ac un babell y cyfarfod.

Ond er bod yr Arglwydd, yn rhinwedd yr undeb Tragywyddol sydd yn briodoledd o'i wynebpryd digyfnewid, yn cyfyngu amlygiad ei bresenoldeb i un gyfundrefn, nid oedd yn ei gyfyngu i un lle. Pan yr oedd yr Eglwys yn symmud yr oedd gwyneb yr Arglwydd yn symmud hefyd. Nid oedd cyfundrefn y cyssegr ddim yn cael ei gwneud yn sefydledig, nes y cwblhawyd sefydliad y genedl. "Ni ddaethoch hyd yn hyn i'r orphwysfa.... Ond pan eloch dros yr Iorddonen, a thrigo yn y tir yr hwn y mae yr Arglwydd eich Duw yn ei roddi i chwi, a phan roddo lonydd i chwi oddiwrth eich holl elynion o amgylch, fel y preswylioch yn ddiogel: Yna y bydd lle wedi i'r Arglwydd eich Duw ei ddewis iddo, i beri i'w enw arhos ynddo." (Deuter. xii. 9—11.)

Ond yn holl grwydriadau yr anialwch, yr Arch oedd craidd attyniad yr holl genedl.

Pan yr oedd Pabell y cyfarfod yn Siloh, yno yr

oedd holl Israel yn ymgynnull. "Holl gynnulleidfa meibion Israel a ymgynnullasant i Siloh, ac a osodasant yno babell y cyfarfod." (Josua xviii. 1.) Y mae iaith yr Ysgrythyr Lan yn dangos yn eglur nad oedd dim modd i un rhan o'r bobl ymneillduo oddiwrth ganolbwynt yr un gyfundrefn osodedig heb adael yr Arglwydd. Pan yr oedd meibion Reuben, a meibion Gad, a hanner llwyth Manasseh, yn dangos tueddiadau ymneillduol, trwy godi allor iddynt eu hunain ar wahan oddiwrth y llwythau ereill, cyhuddwyd hwynt gan lais yr holl Eglwys o adael yr Arglwydd. "Fel hyn y dywed holl gynnulleidfa'r Arglwydd, Pa gamwedd yw hwn a wnaethoch yn erbyn Duw Israel, gan ddychwelyd oddi ar ol yr Arglwydd, pan adeiladasoch i chwi allor i wrthryfela yn erbyn yr Arglwydd?" (Josua xxii. 16.) Yn eu hatteb cydnabyddodd y ddau lwyth a hanner y buasent yn euog o adael yr Arglwydd pe buasent wedi ymneillduo oddiwrth un gyfundrefn yr Eglwys oedd yn ymdroi o amgylch Arch y Dystiolaeth. Y mae yr holl hanes ysprydoledig yn dangos yn eglur nad oedd dim modd bod "GER BRON YR ARGLWYDD" ond trwy lynu wrth yr un drefn awdurdodedig.

Nid oedd pechod yr offeiriaid ddim yn amddifadu Arch y Dystiolaeth o wynebpryd yr Arglwydd. Pan yr oedd meibion Eli yn esgeuluso eu dyledswyddau, ac yn dwyn gwarth ar yr offeiriadaeth, yr oeddynt yn oeri teimlad y bobl tuag at yr Eglwys, ac yn sicrhau eu damnedigaeth eu hunain, ond nid oeddynt yn alltudio Duw allan o'i gyssegr. Y mae y gair yn dangos yn eglur bod pechod y llancgiau yn fwy oherwydd mawredd y Cynddrychioldeb, ym mha un y gwnaethpwyd ef. "Am hynny pechod y llangciau oedd fawr iawn GER BRON yr Arglwydd; canys ffieiddiodd dynion offrwm yr Arglwydd." (1 Sam. ii. 17.) Felly yn Nghymru nid yw annuwioldeb ac anystyriaeth llawer offeiriad annheilwng ddim wedi diddymu awdurdod yspryd yr Eglwys, na rhinwedd ei sacramentau, na gwirionedd ei hathraw-

iaethau, er ei fod yn aml wedi gwneud i'r bobl ffieiddio gwasanaeth pabell y cyfarfod.

Ond gwae i'r offeiriaid a ryfygant bechu yn ngwasanaeth yr Eglwys, canys wrth bechu o flaen ei hallorau y maent yn pechu nid mewn mannau cyffredin a diawdurdod, ond "ger bron yr Arglwydd," a mawr iawn fydd eu pechod, a mawr fydd eu cospedigaeth.

Trwy bechod yr offeiriaid, ac annuwioldeb canlynol y genhedl, dadsefydlwyd cyfundrefn yr Eglwys; aeth yr Arch i faes y rhyfel, a syrthiodd i ddwylaw y gelynion. Ond nid oedd anffyddiaeth ac yspeilgarwch Philistiaid dienwaededig, ddim mwy nag annheilyngdod meibion Eli ac ymddieithriad ymneillduol y dynion a ffieiddient offrwm yr Arglwydd, yn alluog i amddifadu Arch y DYSTIOLAETH o'r awdurdod a berthynai iddi trwy Gynddrychioldeb goruwchnaturiol yr Arglwydd.

Megys y darfu i Arch yr Eglwys Gatholig ac Aposolig yn ein gwlad ni, trwy ddiofalwch offeiriaid anffyddlon a difatterwch y bobl, syrthio yn amser y Chwyldroad i ddwylaw y gelynion, a dangos mawredd y gogoniant oedd yn gorphwys arni, trwy ddwyn cywilydd a gwaradwydd a dymchweliad ar y gwrthwynebwyr; felly y bu yn hanes yr Eglwys Iuddewig.

Bu yr Arch sancteiddlan yng ngafael Philistiaid Asdod, Gath, Ekron a Bethsemes. Ond cafodd anghredinwyr Asdod weled eu gau dduw yn syrthio ar ei wyneb i'r llawr trwy y nerth dwyfol anweledig, nes y gorfodwyd hwynt i ddolefain, "Ni chaiff Arch Duw Israel arhos gyda ni, canys caled yw ei law ef arnom ni ac ar ein Duw." (1 Sam. v. 7.) Yn yr un modd cafodd teulu rhyfygus Bethsemes wybod yn brofiadol bod dirgeledigaethau sancteiddiol yn Arch yr Arlwydd, nad oes dim modd i ddynion gyffwrdd â hwynt heb gael galwad ac awdurdod i wneuthur hynny, os nad ydynt am ddwyn trueni a cholledigaeth ar eu gwlad.

Y mae yspryd Bethsemes yn ein plith ninnau. Y mae dynion yn rhyfygu gweinyddu Sacramentau heb

erioed gael galwad rheolaidd i wneuthur hynny, ac felly y maent yn edrych i mewn i Arch yr Arglwydd. "Tarawodd yr Arglwydd wŷr Bethsemes, am iddynt edrych yn Arch yr Arglwydd, ie, tarawodd o'r bobl ddengwr a thriugain a deng mil a deugain o wŷr." (1 Sam. vi. 19.) Duw yn ei drugaredd a arbedo ein gwlad ni rhag y fath ymweliad. Y mae rhyfyg y rhai a weinyddant yr ordinhadau mewn gwrthryfeliad ar wahan oddiwrth yr Eglwys, yn magu yspryd peryglus yn ein gwlad, a ddichon fod ryw ddydd yn achos o derfysg ac annhrefn a thywallt gwaed. Ond nid oes achos i ni ofni am Arch yr Arglwydd yn ei Eglwys. "Y Philistiaid a ddygasant adref Arch yr Arglwydd." (1 Sam. vi. 21.) Pa driniaeth bynnag ddaw i'w rhan, dan ddwylaw y rhai sydd am ddatsefydlu ac yspeilio ein Heglwys, daw yr Arch yn ei hol o wlad y gelyn gyda pharchedig ofn a gwarogaeth y rhai fu gynt yn ei chablu a'i diystyru.

Pan yr oedd y genhedl mewn cyflwr ansefydledig yr yr oedd yr Arch yn ansefydledig hefyd. Bu canolbwynt crefydd y genhedl yn arhos yn nhŷ Abinadab ac yn nhŷ Obed Edom. Ond pan gyflawnwyd yr amser a ragfynegwyd gan Moses, ac y cafodd Israel lonydd oddiwrth eu gelynion a meddiant heddychol o'r wlad dan deyrnasiad Dafydd, daeth i galon y brenhin i sefydlu yr Eglwys trwy adeiladu tŷ i'r Arglwydd yn Jerusalem, a phreswylfod i rymmus Dduw Jacob. Ond yn ol ewyllys yr Arglwydd, Solomon ei fab a ddewiswyd i gyflawni y gwaith. Pan orphenwyd yr adeilad ardderchog, ac yr addurnwyd â thrysorau mwyaf gorwych y ddaear, yna y gosodwyd Arch y Dystiolaeth, a fu gynt yn preswylio mewn pebyll, i orphwys mewn tŷ yn y lle a ddewisodd yr Arglwydd. (2 Cron. v. 7. 13. 14.) "Yr offeiriaid a ddygasant Arch cyfammod yr Arglwydd i'w le, i gafell y tŷ, i'r cyssegr sancteiddiolaf, hyd tan adenydd y cerubiaid .... Yna y llanwyd y tŷ â chwmmwl, sef tŷ'r Arglwydd: fel na allai'r offeiriaid sefyll i wasanaethu

gan y cwmmwl: oherwydd gogoniant yr Arglwydd a lanwasai dŷ Dduw."

O hyn allan hyd ymddattodiad y gyfundrefn Iuddewig, Jerusalem a'i theml oedd preswylfod gwynebpryd y Goruchaf yn ei Eglwys, a thua'r canolbwynt yma yr oedd yr Israeliaid, yn awr y caledi, i droi eu hwynebau mewn ymbil a deisyfiad, yn ol hyfforddiant y brenhin. "Os gweddiant arnat ti tua'r ddinas yma yr hon a ddetholaist, a'r tŷ a adeiledais i'th Enw; yna gwrando di o'r nefoedd ar eu gweddi hwynt, ac ar eu deisyfiad." (2 Cron. vi. 34, 35.)

Ond ymhen amser trwy bechod Rehoboam yn rhoddi cyfleustra i uchelgais daearol a rhyfygus Jeroboam, gwnaethpwyd rhwyg yn undeb crefyddol y bobl etholedig. Codwyd allor a sefydlwyd gwasanaeth ymneillduol yn Dan ac yn Bethel, ar wahan oddiwrth Arch y Cyfammod yn Jerusalem. Beth oedd y canlyniad? Y mae awdwr y gyfundrefn ymneillduol, yr hwn a rwygodd undeb yr Eglwys Iuddewig, ac a feiddiodd annog dynion di-urdd a di-alwad i weinyddu mewn pethau crefyddol, wedi ei gofnodi, er rhybudd i ymbleidwyr pob oes, yn y frawddeg ofnadwy honno, "Jeroboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu." Ac er mwyn rhag-ddangos y dynghedfen sydd yn arhos pob cyfundrefn grefyddol a sefydlir mewn yspryd sismaticaidd yn erbyn Allor sefydledig yr Arglwydd, anfonwyd gŵr Duw o Juda i brophwydo bod dinystr wedi ei appwyntio i'r Allor ymneillduol. Cafodd y brenhin rhyfygus arwydd profiadol yn ei fraich ddiffrwyth, mai methiant a gwywhâd a diflanniant sydd yn arhos gweithrediadau y rhai a ymegniant yn erbyn Un Eglwys Dduw. Cyhoeddwyd y dynghedfen anocheladwy sydd wedi ei pharottoi i bob Allor ymneillduol, trwy weithrediadau y ddeddf ysprydol sydd yn tarddu oddiwrth yr undeb sydd yn briodoledd yng ngwynebpryd digyfnewid Duw, yn y geiriau hyn, "Wele yr allor a rwygir, a'r lludw sydd arni a dywelltir." (1 Bren. xiii. 3.) Pwy all wadu fod pob cyfundrefn ymneillduol yn ymrwygo o'i mewn ymhen amser, a

bod gweddillion y tân crefyddol fu yn llosgi aberth y gwasanaeth ar ei hallor, yn nechreuad ei gyrfa, yn cael ei dywallt a'i lyngcu gan attynniadau daearoldeb?

Megis yn hanes Eglwys Apostolig yr amseroedd diweddaf y mae anghrediniaeth ac annuwioldeb y genhedl wedi tywyllu yr awyrgylch grefyddol nes y mae gwynebpryd y bywiol Dduw wedi cilio o olwg ysprydol ffydd y gynnulleidfa, a'r cyssegr wedi ei feddiannu bron yn llwyr gan y byd, a'i halogi a'i sathru dan draed; felly y bu yn hanes yr Eglwys Iuddewig. Oherwydd pechodau y genhedl, traddododd Duw Jerusalem i ddwylaw Assyria. "Y cenhedloedd, O Dduw, a ddaethant i'th etifeddiaeth; halogasant dy deml sanctaidd, gosodasant Jerusalem yn garneddau." (Salm lxxix. 1.) Yn amser tywyll y caethgludiad yr oedd tŷ'r Arglwydd ac Arch y cyfammod wedi eu dryllio, a goleuni gwynebpryd y Goruchaf wedi cilio o olwg ei bobl; ac yr oedd llais anffyddiaeth yn gofyn mewn gwatwareg, "Pa le y mae eu Duw hwynt?" (Salm lxxix. 10.) Ond yn ei amser da ei hunan ymwelodd yr Arglwydd â'i bobl, etholodd Ezra a Nehemiah i ail adeiladu ei dŷ, a dangosodd fod calonnau y brenhinoedd Cyrus, Darius, ac Artaxerxes wrth ei reolaeth a'i lywodraeth ef, i "gyflawni ei holl ewyllys, gan ddywedyd wrth Jerusalem, Ti a adeiledir; ac wrth y deml, Ti a sylfeinir." (Esay xliv. 28.)

Y mae y rhai hynny sydd wedi cael y fraint o gymmeryd rhan yn y gwaith o ail adeiladu muriau yr Eglwys yn gwybod trwy brofiad bod rhwystrau a gwrthwynebiadau yn eu cyfarfod. Yr oedd rhwystrau gan y gelynion oddiallan, a gweithrediadau bradychol anffyddloniaid oddifewn i'r muriau, yn lluddias adeiladwyr Jerusalem. Yr oedd Sanbalat yr Horoniad, a Thobiah y gwas, a Gesem yr Arabiad yn gwatwar eu gwaith, ac yn cyflogi cynghorwyr yn eu herbyn i ddiddymu eu cynghor. Yr oeddynt hwythau, "Bislam, Mithredath, Tabeel, a'r rhan arall o'u cyfeillion," (Ezra iv. 7,) yn defnyddio eu holl allu politicaidd yn llys llywodraeth y brenhin er mwyn cadw muriau Jeru-

salem yn isel yn y llwch. Nid oedd y ddinas ychwaith heb fradwyr oddifewn. "Yn y dyddiau hyn pendefigion Judah oedd yn mynych ddanfon eu llythyrau at Tobiah; a'r eiddo Tobiah oedd yn dyfod attynt hwythau. Canys yr oedd llawer yn Judah mewn cynghrair âg ef." (Nehemiah vi. 17.) Ond ar y diwedd, er gwaethaf llid y gelynion a chynllwynion y bradwyr, trwy ddyfal ymdrech yr adeiladwyr a fuont yn hir yn gweithio yn y gwaith âg un llaw, ac â'r llaw arall yn dal arf, "Y mur a orphenwyd . . . a phan glybu eu holl elynion . . . . hwy a ofnasant ac a lwfrhasant yn ddirfawr ynddynt eu hun; canys gwybuant mai trwy ein Duw ni y gwnelsid y gwaith hwn." (Nehemiah vi. 15, 16.) Yng ngorpheniad y gwaith yna yr adnewyddwyd canolbwynt Undeb Eglwysig Israel, tuag at ba un y parhaodd y ffyddloniaid i graidd-gyrchu mewn ufudd-dod i ddeddf ysprydol yr Undeb Tragywyddol, hyd nes y crewyd gan Dduw ganolbwynt arall, ac y traddodwyd tystiolaeth y cyfammod newydd. Ger bron yr Arglwydd yn ei dŷ yr oedd y ffyddloniaid yn disgwyl am gyflawniad yr addewid a datguddiad y gogoniant yn yr ymgnawdoliad. Yno yr aeth rhieni Mab y Dyn i'w gyflwyno yn ei fabandod i'r Arglwydd. Yno yr oedd Simeon yn disgwyl am ddiddanwch Israel. Yno hefyd yr oedd Anna, "yr hon nid âi allan o'r deml." Yno yr oedd llewyrchiad gwynebpryd Duw—gwir wrthrych addoliad dyn, ac nid yn Samaria a'i chyfundrefn newydd gyfnewidiol, gymmysglyd ac ammhenodol. "Chwychwi ydych yn addoli y peth ni wyddoch; ninnau ydym yn addoli y peth a wyddom: canys iachawdwriaeth sydd o'r Iuddewon." (St. Ioan iv. 22.) Yn Jerusalem, hyd ddydd ei hymweliad, yr oedd llewyrch gwynebpryd Duw yn arhos yn y Cyssegr. Yno yr oedd "Tŷ yr Arglwydd."

Ond yng nghyflawnder yr amser daeth y Duwdod oedd wedi bod yn preswylio yn nirgeledigaeth y Shecinah, ac yn taflu goleuni ei wynebpryd ar y Cyssegr Sancteiddiolaf, i breswylio yn nês at ddynoliaeth. "Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn

ein plith (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr uniganedig oddiwrth y Tad) yn llawn gras a gwirionedd." (St. Ioan i. 14.) Yn ei ymadrodd wrth yr Iuddewon, pan y rhagddywedodd am ddinystr ac adgyfodiad "teml ei gorph," (St. Ioan ii. 21,) yr oedd yn eu dysgu mai ei Ddwyfol gnawd ef oedd "Ty'r Arglwydd," yn yr hwn y mae "holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol." (Col. ii. 9.) Pan yr oedd ef â'i air Dwyfol yn porthi y miloedd, ac yn distewi y dymhestl, nid oedd ond yn cyflawni yr un gwaith a wnelid ganddo yng nghwmmwl ei ogoniant pan y parthodd Ef y Môr Coch, ac y porthodd ei bobl â manna yn yr anialwch. Ond megis nad oedd yr holl bobl ddim yn cael neshau i weled y gogoniant yn y Cyssegr Sancteiddiolaf, felly hefyd yn nyddiau yr ymgnawdoliad, nid oedd ond y disgyblion a gredasant ynddo, ac a'i dilynasant mewn cariad, yn cael gweled ei ogoniant.

Ar fynydd y gweddnewidiad cafodd y tri disgybl etholedig weled ei ogoniant am ennyd fechan, ond buan y daeth cwmmwl i'w cysgodi hwynt. Ond yn y profiad byr hwnnw cawsant sicrhad mai ei gnawd ef oedd "Ty yr Arglwydd," ac mai ynddo ef yr oedd Arch y Dystiolaeth, wedi cartrefu mewn un ag oedd yn fwy na'r deml.

"Arglwydd, at bwy yr awn ni, genyt ti y mae geiriau y bywyd tragywyddol." (St. Ioan vi. 68.) Tra yr oedd efe ar y ddaear, yr Iesu "yn ol y cnawd" oedd canolbwynt yr Eglwys, lle yr oedd goleuni gwynebpryd Duw yn llewyrchu. "Tra'r ydwyf yn y byd, goleuni y byd ydwyf."

Ond ar ol esgyniad Crist i'r nef, pa le mae preswylfan ddaearol y Goruchaf? Pa le mae Duw yn dangos goleuni ei wynebpryd ac yn ymgyfarfod â'i gynnulleidfa yng nghwmmwl y gogoniant? Nid ydyw Duw yn awr yn cyfyngu ei bresennoldeb i un lle.

Ond yn ol deddf yr Undeb Tragywyddol y mae yn amlygu ei wynebpryd yn ei ogoniant mewn *un* gyfundrefn o weinidogaeth yn nghorph ei Eglwys, a'r

gyfundrefn honno yw tŷ'r Arglwydd. Felly y dywed yr Apostol—"Yn nhŷ Dduw, yr hwn yw Eglwys y Duw byw, colofn a sylfaen y gwirionedd." (1 Tim. iii. 15.) Pa fodd y mae tŷ Dduw wedi ei adeiladu yn yr oesoedd hyn? Yn ol deddfau yr un Yspryd ag oedd yn adeiladu tŷ'r Arglwydd yn Jerusalem, ond mewn ffurfiau gwahanol. Fel yr ydwyf eisoes wedi dangos, y mae undeb yn un o'r deddfau tragywyddol hynny. Ac o ganlyniad, UN Jerusalem, UN Arch y Dystiolaeth, UN llwyth offeiriadol, UN cwmmwl y gogoniant oedd yn yr Eglwys dan yr hen oruchwyliaeth. Y mae dysgawdwyr hunandybiol anwybodus yn ceisio perswadio dynion bod nid yn unig lythyren, ond yspryd a bywyd yr hen oruchwyliaeth wedi myned heibio gyda dinystr Jerusalem. Yn y dinystr hynny maent am berswadio'r byd fod Crist wedi diddymu undeb ei Eglwys, ac wedi derchafu anghyttundeb diddiwedd yn ei le. Ond y mae efe wedi dywedyd, "Na thybiwch fy nyfod i dorri'r gyfraith . . . . ni ddaethum i dori, ond i gyflawni." (St. Matth. v. 17.) Y mae undeb yn rhan o gyfraith Eglwys Dduw, yn sefyll ar awdurdod y gorchymmyn cyntaf yn Arch y Dystiolaeth. Y mae rhwymedigaeth yr undeb yna yn rhwymo eneidiau yn awr â'r un rhwymedigaeth ag yn yr hen oesoedd, ac yn gorfodi dynion i dderbyn gair y dystiolaeth, "Credaf fod UN Gatholig ac Apostolig Eglwys." Y mae duwinyddion gwerinol yr "oes oleu hon" am berswadio dynion fod y Duw digyfnewid wedi newid ei feddwl, ac wedi diddymmu y gyfraith oedd gynt yn bodoli. Ond ynddo ef "nid oes gyfnewidiad na chysgod troadigaeth." (St. Iago i. 17.) Pa fodd gan hynny y mae Crist yn y Testament Newydd yn sicrhau cyflawniad cyfraith yr undeb oedd wedi ei ddiogelu yn yr Eglwys Iuddewig trwy ganolbwynt lleol? Trwy awdurdod UN Dystiolaeth Apostolaidd, UN Weinidogaeth Apostolaidd, ac UN Cynddrychioldeb goruwchnaturiol yn cydfyned â chyfundrefn y Dystiolaeth. Ar ol ei adgyfodiad, yn awdurdod ei allu dwyfol, rhoddodd gommissiwn i'w anfonedigion, neu Apostolion, gan

ddywedyd, "Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch gan hynny a dysgwch yr holl genhedloedd .... gan ddysgu iddynt gadw pob peth ar a orchymynais i chwi." (St. Matth. xxviii. 18. 20) A thrachefn y dywedodd efe, "Megis y danfonodd y Tad fi, yr wyf finnau yn eich danfon chwi. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a anadlodd arnynt, ac a ddywedodd, Derbyniwch yr Yspryd Glan." (St. Ioan xx. 21, 22.) Yr oedd efe wedi addaw o'r blaen y byddai i'r Yspryd Glan eu tywys hwynt i bob gwirionedd. O ganlyniad nid oedd dim modd i'r Apostolion, pan yr oeddynt yn gyttûn, gyfeiliorni yn eu hathrawiaeth, canys yr Yspryd Glan yn ol addewid Crist oedd yn eu dysgu. Ac felly nid oedd dim modd i neb berthyn i Eglwys Crist heb "barhau yn athrawiaeth yr Apostolion." (Actau ii. 42.) Canys yr athrawiaeth honno oedd Arch TYSTIOLAETH y cyfammod newydd, yr hon a luniwyd gan y Deddfroddwr yn ei air. "Chwi a dderbyniwch nerth neu awdurdod yr Yspryd Glan wedi y delo efe arnoch, ac a fyddwch DYSTION i mi .... hyd eithaf y ddaear." (Actau i. 8.) Pa le y ceir y dystiolaeth yna? Pa le y ceir athrawiaeth yr Apostolion? Megis yn y cyssegr sancteiddiolaf yr oedd crynodeb o athrawiaeth Moses, sef y Dengair Deddf ar y ddwy lech, yn unig yn Arch y Dystiolaeth; felly yn yr Eglwys Apostolig y mae crynodeb o dystiolaeth yr Apostolion am Grist, yn gynnwysedig yn y ddau Gredo a dderbynir gan bob rhan o'r Eglwys trwy y ddaear. Yn y ddau Gredo y mae athrawiaeth a thystiolaeth yr Apostolion am Grist. Nid oes neb yn aelod o Eglwys weledig Crist, os gwrthoda y ddau Gredo, canys y mae yn gadael athrawiaeth yr Apostolion. Ond, medd rhyw un, nid gan yr Apostolion, ond gan eu hâd swyddogol yn y bedwaredd ganrif y ffurfiwyd Credo Nicea. Gwir iawn. Ond yn eu hâd y mae yr Apostolion yn byw eu hunain. Y mae yn hên ymadrodd, nad oes modd i'r brenhin farw (*the king never dies.*) Paham? Canys yn y munud yr anadla ei anadl olaf, y mae ei awdurdod

brenhinol yn disgyn ar ei olynydd. Felly nid ydyw yr Apostolion erioed wedi marw o ran eu swyddogaeth apostolaidd.

Am hyny y dywedodd Crist, "Wele, yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd." (St. Matth. xxviii. 20.) Ni chaniattawyd i'r Apostolion cyntaf—tadau y llwythau apostolaidd—fyw yn y cnawd hyd ddiwedd y byd, ac am hynny nis derbyniasant yr addewid ynddynt eu hunain. Ond y maent yn ei derbyn yn eu hetifeddion, yr Esgobion sydd wedi hanu o hâd urddau eu swydd apostolaidd. Abraham a gafodd addewid am dir Canaan. (Genesis xvii. 8,) "Mi a roddaf i TI .... wlad dy ymdaith." Ni chafodd Abraham yr holl dir addawedig ei hun, ond cafodd ef yn ei etifeddion. Felly pan yr oedd Crist yn dywedyd wrth ei Apostolion (St. Matth. xxviii. 20,) "Wele, yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd," yr oedd yn edrych ar eu hâd oeddynt heb ddyfod i fodolaeth gweledig yn y cnawd, ond a oeddynt yn bodoli yng ngwŷdd yr Hollwybodol Dduw. (Rhuf. iv. 17,) "Yr Hwn sydd yn bywhâu y meirw, ac yn *galw y pethau nad ydynt fel pe byddent.*" Y mae ef gyda'r Apostolion yn mhersonau eu hetifeddion; gyda'r weinidogaeth apostolaidd ymhob oes. Yng Nghyngor Nicea yr oedd yr Apostolion yn gyttûn ac yn un fryd yn penderfynu erthyglau Credo. Am hynny yr oedd Crist yn ei Yspryd Glan gyda hwynt yn ol ei addewid. O ganlyniad y mae y dynion a feiddiant wawdio y Credoau, yn gwawdio athrawiaeth yr Apostolion, yn gwawdio tystiolaeth yr Yspryd Glan, yn gwawdio gwirioneddau yr Ysgrythyrau Sanctaidd, o hanfodion pa rai nid yw y Credoau ond crynodeb awdurdodol. Y ddau Gredo Catholig, ag sydd wedi bod ar hyd y canrifoedd yn yr Eglwys gyffredinol, ydyw cynnwysiad Arch y Dystiolaeth. Y maent yn rhan hanfodol o ddodrefn y cyssegr. Y neb a'u gwado nis gall fod yn "nhŷ yr Arglwydd."

Megis yr oedd Duw yn diogelu undeb yr Eglwys Iuddewig trwy roddi Arch y Dystiolaeth a holl was-

anaeth y cyssegr dan ofal swyddogol un llwyth offeiriadol, felly yn yr un yspryd, ond mewn ffurf newydd, y mae yn awr yn cyflawni y gyfraith hon. Yn yr Eglwys Apostolig y mae deuddeg Apostol wedi cenhedlu, trwy genhedliad urddau trosglwyddedig, lwythau o feibion iddynt eu hunain, ac wedi traddodi iddynt etifeddiaeth eu swyddi a'u hawdurdod. Nid oes yr un dyn wedi cael ei dderbyn i fewn i nifer y lliaws apostolaidd heb genhedliad rheolaidd yn amlhad yr urddau. (Llyfr Gweddi Gyffredin.) "A'r cyfryw barchus fri ydoedd erioed ar y swyddau hyn, fel na all neb ryfygu gweini yn yr un o honynt eithr yn gyntaf iddo gael ei alw, ei brofi, ei holi, ac amlygu fod ganddo gynheddfau cymmwys i'r unrhyw: ac oddi eithr hefyd cael trwy Weddi Gyhoeddus, ac Arddodiad Dwylaw, ei gymmeradwyo a'i dderbyn i'r swydd gan Awdurdod gyfreithlon." Y mae yn wir bod anffyddwyr yn gwadu cywirdeb yr achau apostolaidd, ac yn difrio Llyfr cenhedliad swyddogol Pen Bugeiliaid yr Eglwys. Ond y mae yr unrhyw blaid anffyddol yn meiddio gwadu cywirdeb Llyfr Cenhedliad Iesu Grist ei hunan.

Y mae yn amlwg mai awdurdod swyddogol UN weinidogaeth apostolaidd ydyw trefn Duw er diogelu undeb corph ei Eglwys. Ni byddai dim modd cadw undeb gwladol, oni bai y gallu i appwyntio swyddogion gwladol gael ei gyfyngu i awdurdod yr un goron. Pe bai rhyw blaid o ddynion, fel Cydfrodoriaeth Paris, yn cymmeryd rhyddid i appwyntio barnwyr, a swyddogion, a heddgeidwaid, er gweinyddu cyfraith a chasglu trethi yn ol eu dymuniad, ar wahan oddiwrth yr orsedd, canolbwynt Llywodraeth y wlad, âi yr ol genhedl i dryblith o ddyryswch.

Felly y mae y pleidiau sydd wedi cymmeryd yr hyfdra i anfon dynion i weinyddu swyddau crefyddol, ar wahan oddiwrth awdurdod apostolaidd, y cadeiriau esgobol, wedi dryllio Undeb Eglwysig, ac wedi creu dros gant o sectau amryliw.

Pa un oedd y swydd bwysicaf a gyflwynodd Crist i'w Apostolion yn eu gweinidogaeth swyddogol? Y

swydd o weinyddu yr ordinhad sanctaidd trwy ba un y mae Efe yn cyfrannu ei gorph a'i waed, ac yn amlygu ei wydd ysprydol trwy ei holl Eglwys. Traddododd iddynt yr awdurdod yna yn y gweithrediad a'r ymadrodd a gofnodir yn y geiriau hyn, "Wedi iddo gymmeryd bara, a rhoddi diolch, Efe a'i torrodd, ac a'i rhoddes iddynt, gan ddywedyd, Hwn yw fy nghorph, yr hwn yr ydys yn ei roddi drosoch: gwnewch hyn er coffa am danaf." (St. Luc xxii. 19.) Am bymtheg cant o flynyddoedd ni ryfygodd neb erioed weinyddu y Cymmun Bendigaid heb alwad ac anfoniad mewn urddau apostolaidd. Nid oes gan neb hawl, ond yr Apostolion yn unig, i weinyddu y Cymmun Bendigaid. Ond y mae yr hen ddiareb, "Yr hwn a wnelo beth trwy un arall sydd yn ei wneud ei hunan" (*Qui facit per alium facit per se.*) Felly, pan weinyddir y Cymmun Bendigaid gan offeiriad sydd wedi derbyn awdurdod urddau apostolaidd, y mae yr Apostolion eu hunain, trwy ei weinidogaeth ef, yn gweinyddu. Felly, megis yr oedd undeb yr Eglwys Iuddewig yn cael ei ddiogelu trwy bennodiad un llwyth i ofalu am y cyssegr, yn yr un modd y mae undeb yr Eglwys Gatholig ac Apostolig yn cael ei ddiogelu trwy awdurdod un offeiriadaeth apostolaidd.

Nid oedd dim ond UN man yn yr Eglwys Iuddewig lle yr oedd gwyneb Duw yn ymddangos mewn cwmmwl o ogoniant, sef yn y Cyssegr Sancteiddiolaf. Yn y fan honno, fel y dywedais eisoes, yr oedd holl briodoliaethau Duw yn cael eu cynnrychioli, ac felly yn cydgyfarfod mewn *cynddrychioldeb* ysprydol. Nid oedd dim un briodoledd heb ei chynnrychioli yno. Pan gododd Jeroboam allorau ymneillduol Dan a Bethel, nid oes dim son bod cwmmwl y gogoniant wedi ymddangos yno. Nid oedd modd i Dduw, yn ol deddfau ei Dragywyddol Dduwdod, fod yn ei gyflawnder yno. Nid oedd dim modd i Dduw Undeb ddangos ei ogoniant ar allor ymrwygiad. Nid oedd dim modd i Dduw trefn ddangos ei wyneb gydag awdwyr annhrefn. Felly nid oes yn awr ond UN amlygiad o oleuni gwynebpryd

Duw yn holl ddysgleirdeb ei belydrau. Ymha le y mae gogoniant Duw yn preswylio yn ei gynddrychioldeb gwirioneddol? Pan oedd Crist ar y ddaear, yr oedd yn preswylio yn ei holl briodoliaethau yn gorphorol yn ei gorph dynol Ef. Ac yn awr y mae yn preswylio mewn dirgelwch ar y ddaear yn ei gorph a'i waed dirgeledigaethus Ef, a gyfrennir i'w bobl trwy y weinidogaeth apostolaidd. Nid oes modd rhannu Crist. Nid oedd y Shecinah ddim ar yr un pryd yn Bethel ac yn Jerusalem—"UN corph sydd, ac UN Yspryd, megys ag y'ch galwyd yn UN gobaith eich galwedigaeth." (Eph. iv. 4.) Y mae pob gweinidog a ryfyga weinyddu yn y cyssegr, heb ei alw gan awdurdod apostolaidd, ymhob gweinyddiad yn pechu yn erbyn un o briodoliaethau Duw, ac yn gyrru gwynebpryd Duw i gilio. O ganlyniad, nid rhyfeddol ydyw fod pob sect ag sydd wedi colli gweinidogaeth yr Apostolion, yn myned allan *oddi ger bron* yr Arglwydd. Hynny yw, y mae pob crediniaeth yng nghynddrychioldeb goruwchnaturiol Duw yn marw yn eu plith. Y maent yn credu bod Duw yn bresennol yn yr un ystyr ag y mae y Deist, a'r Sosiniad, a'r Mahometaniad yn credu. Ond nid ydynt yn credu fod Duw yn agoshau attynt mewn dirgeledigaeth, fel y dywedodd Crist, yn y corph a'r gwaed. Nid ydynt yn credu o gwbl mewn Eglwys weledig fel corph gwrthddrychol Crist. Y maent wedi alltudio y cyssegr i'r byd anweledig, ac wedi amddifadu y ddaear o oleuni gwyneb ein Duw. Y maent yn gwrthod yn hollol wirionedd pabelliad gwrthrychol Duw yn nhrefn ordeiniedig y cyssegr, a fynegir yn y geiriau hyn, (Dat. xxi. 3,) "Wele, y mae pabell Duw gyda dynion, ac Efe a drig gyda hwynt." Y maent yn llwyr gredu y gallant hwy fyned i ymgyfarfod â Duw yn ehediadau eu meddwl a'u teimlad, a'u dychymmyg. Ond y mae eu duwinyddiaeth a'u cyfundrefn yn wadiad o'r gwirionedd fod Duw wedi dyfod i "babellu yn y cnawd," ac i ymgyfarfod â ni yn ei fynediadau yn y cyssegr. Onid ydynt yn eu syniadau yn tystiolaethu i'r gwirionedd, nad oes

modd gadael gweinyddiadau yr Apostolion heb adael gwynebpryd Duw ar ol? O ran sefyllfa grediniol eu hathrawiaethau, gellir dywedyd am danynt, Aethant allan *"o ŵydd yr Arglwydd."* Y mae eu syniadau am dŷ yr Arglwydd ymhob modd yn gyson â'u sefyllfa: Nid ydynt yn edrych ar dŷ yr addoliad fel tŷ wedi ei neillduo iddynt fyned i gyfarfod â Duw, ond defnyddir ef i drin pethau y ddaear ac amser. Yn hyn drachefn y maent, heb wybod, yn dwyn tystiolaeth i'r gwirionedd nad ydyw y gyfundrefn sydd yn pechu yn erbyn Undeb, trwy ymadael âg athrawiaeth yr Apostolion, a chymdeithas yr Apostolion, ac â'r torri bara a'r gweddïau, ddim yn wirioneddol "dŷ yr Arglwydd."

Ymhob Eglwys yn y wlad hon y mae holl hanfodion tŷ yr Arglwydd yn bodoli. Ac yn y Cymmun Bendigaid a weinyddir o'i mewn y mae gwir gorph a gwaed Crist mewn dirgelwch ysprydol yn cael ei gyfrannu, a gogoniant ei wynebpryd mewn cwmmwl yn amlygu ei hun i enaid crediniol y sawl a gyfrannogo mewn ffydd. "Phiol y fendith, yr hon a fendigwn, onid cymmun gwaed Crist ydyw? Y bara yr ydym yn ei dorri, onid cymmun (h.y. cyfrannogiad) corph Crist ydyw." (1 Cor. x 16.) Fel hyn y mae Crist trwy ei Yspryd Glan wedi ail adeiladu Jerusalem yn ein gwlad, ymhob ardal, ymhob plwyf. Y mae y cyssegr, Arch y Dystiolaeth, y Drugareddfa a daenellwyd â gwaed yr aberth, a chwmmwl y gogoniant yn ein hymyl. Ond cofiwn, frodyr, na bydd agosrwydd yr Arglwydd yn y cyssegr ddim yn ein achub os na byddwn yn myned yn nês trwy ffydd. Os awn i gyfrannogi yn annheilwng, byddwn yn cyfarfod â'r Arglwydd i'n dinystrio yn ei ddigllonedd. Yn Eglwys yr anialwch yr oedd cwmmwl y gogoniant yn ymddangos nid yn unig i waredu ac i fendithio y bobl pan yr oeddynt yn ufudd i'r gair; ond yr oedd yn cyfodi hefyd mewn gwg i ddinystrio. Cyn dinystr y pedair mil ar ddeg a saith cant, "ymddangosodd gogoniant yr Arglwydd." (Numeri xvi. 42.) Felly hefyd y mae yr hwn a nesao yn rhyfygus ac yn annheilwng at ogoniant yr Arglwydd yn y Cymmun

yn cyfarfod yno farwolaeth ysprydol. "Yr hwn sydd yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng sydd yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn iawn farnu corph yr Arglwydd." (1 Cor. xi. 29.) Ond y mae yr hwn a nesao mewn ffydd yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd, ac yn cael ei newid "i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megis gan Yspryd yr Arglwydd." (2 Cor. iii. 18.) Y mae yr hwn sydd yn cyfrannogi mewn ffydd yn derbyn Crist mewn dirgelwch o'i fewn, ac y mae y gogoniant yn ymddisgleirio fwyfwy o ddydd i ddydd yng nghyssegr ei galon. "I'r rhai yr ewyllysiodd Duw hyspysu beth yw golud gogoniant y dirgelwch hwn ymhlith y Cenhedloedd, yr hwn yw Crist ynoch chwi, gobaith y gogoniant." (Col. i. 27.)

Y mae y rhai sydd wedi cyrhaedd y profiad yna yn medru atteb y cwestiwn hwnnw, "Oni wyddoch chwi mai teml Dduw ydych, a bod Yspryd Duw yn trigo ynoch?" (1 Cor. iii. 16.) Gan hynny, frodyr, plygwch eich gliniau at Dduw, "ar fod Crist yn trigo trwy ffydd yn eich calonau chwi." Yna byddwch wedi eich hail greu ar ddelw Duw, i rodio yng ngoleuni ei wynebpryd. Byddwch wedi myned i mewn i'r "cyssegr trwy waed Iesu, ar hyd ffordd newydd a bywiol, yr hon a gyssegrodd efe i ni trwy'r llen, sef ei gnawd Ef." (Heb. x. 19.) Yna byddwch yn y mwynhad tragywyddol o lawenydd "Tŷ yr Arglwydd."

II. Y Nodau trwy ba rai yr adnabyddir yr Eglwys—sef,

1. Undeb mewnol ac hanfodol.
2. Undeb cymdeithas.
3. Undeb barnol.

1. "Jerusalem a adeiladwyd fel dinas wedi ei chydgyssylltu ynddi ei hun."

Nid oes modd deall cyd-gyssylltiadau mewnol y gwahanol ranau mewn dinas, heb wybod pa beth yw prif ddiben ei bodolaeth. Canys y mae pob dinas wedi ei

hadeiladu gan ei chynllunwyr, yn ei holl rannau, fel y byddont yn cydweithredu tuag at gyflawniad y diben hwnnw. Mewn dinas fasnachol y mae rhyw adeilad mawr yn sefyll yn ei chanol, rhyw newidfa neu farchnadfa, ac y mae holl weithrediadau bywyd y ddinas yn chwareu o'i amgylch, fel canolbwynt. Yn yr un modd mewn dinas frenhinol, y mae llys a gorsedd y brenhin yn sefyll, fel y galon ynghanol y corph yn anfon ffrydiau ei bywyd i gylchdroi yn ol ac yn mlaen trwy holl wythiennau y ddinas. Yn ei ymyl y mae senedd-dy y cynghorwyr, palasau y tywysogion, a swyddfeydd y barnwyr a'r llywiawdwyr.

Y mae yr holl heolydd yn cydredeg o bob cyfeiriad tua'r craidd, ac nid oes un annedd ynddynt oll nag ydyw hi yn dwyn rhyw gyssylltiad â chalon y ddinas. Felly hefyd yr oedd Jerusalem wedi ei chyd-gyssylltu ynddi ei hun. Tŷ yr Arglwydd, Llys Brenhin y brenhinoedd, yn yr hwn yr oedd efe yn preswylio uwchben y drugareddfa, oedd calon dinas Jerusalem. O fewn y Deml nid oedd yno ddim un swydd, na llestr, na defod, heb fod yn dwyn cyssylltiad â Mawrhydi yr Hwn oedd yn eistedd ar y Drugareddfa. Felly hefyd yn y ddinas, yr oedd pob porth, pob heol yn arwain tua'r canolbwynt. Goleuni gwynebpryd Duw yn ei breswylfa oedd yn egluro dibenion y ddinas, canys yr oedd pob rhan o honi wedi ei hadeiladu er mawrhau gogoniant y cyssegr. Wrth feddwl am ddylanwad y Drugareddfa yn treiddio fel yna trwy yr holl ddinas, y mae y Salmydd yn dywedyd ei bod fel dinas wedi ei "chyd-gyssylltu ynddi ei hun."

Gellir egluro y cyd-gyssylltiadau mewnol yma trwy ein profiad o undeb gwladol dan deyrnasiad un orsedd. Hyd eithafoedd y wlad y mae dylanwad cadwedigol, gweinyddol, a chospedigol yr orsedd yn treiddio. Nid oes yr un bwthyn yn arhos mewn diogelwch ond fel y mae y Llywodraeth ganolog yn estyn adenydd ei chadwraeth dros ei breswylwyr. Nid oes yr un llythyr yn cael ei gludo o le i le, heb ddwyn arno arwydd dylanwad y goron. Nid oes yr un drwgweithredwr yn

cael ei gospi heb i swyddog ymafael ynddo yn enw y brenhin. Y mae y cyd-gyssylltiad yn treiddio trwy bob cymmal yn mywyd corph y wlad. Felly yr oedd dylanwad gwynebpryd Duw yr hwn a deyrnasodd rhwng y cerubiaid yn treiddio trwy yr holl ddinas, ac yn rhwymo pob rhan mewn cyd-gyssylltiad.

2. Ond yn yr ymgnawdoliad y gwelir sail y cyd-gyssylltiad undebol sydd i fodoli rhwng pob rhan o'r Eglwys. Y mae dynoliaeth yn cael bywyd tragywyddol trwy adlewyrchu pob priodoledd yn y ddelw Ddwyfol. Y mae dyn yn rhwym o adlewyrchu pob nodwedd yng ngwynebpryd moesol y Duwdod. Dyna sail rhwymedigaeth dyn i geisio sancteiddrwydd. (Lef. xix. 2,) "Byddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf fi, yr Arglwydd eich Duw chwi." Y mae y Gair Dwyfol, yn amser ei ymgnawdoliad, wedi ein dysgu bod undeb mewnol yn nodweddu Bywyd Tragywyddol y Duwdod. (Ioan x. 30,) "Myfi a'r Tad Un ydym." Felly y mae Efe yn gweddio dros ei Eglwys am i'w bobl gael nerth i adlewyrchu yn ei bywyd yr undeb dirgeledigaethus yna. (St. Ioan xvii. 20, 21,) "Nid wyf yn gweddio dros y rhai hyn yn unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof fi trwy eu hymadrodd hwynt: fel y byddont oll yn un, megys yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti, fel y byddont hwythau un ynom ni; fel y credo y byd mai tydi a'm hanfonaist i."

3. Y mae y cyd-gyssylltiad yma yn ymddangos yn mywyd dyddiau boreuol yr Eglwys ar ol ei genedigaeth trwy dywalltiad yr Yspryd Glan ar ddydd y Pentecost. Ar y diwrnod hwnnw, yn ol gweddi yr Arglwydd, yr oeddynt oll yn "gyttûn yn yr un lle." (Actau ii. 1.) Ac ar ol disgyniad yr Yspryd yr oeddynt yn (Act. ii. 42—44) "parhau yn athrawiaeth ac ynghymdeithas yr Apostolion, ac yn torri bara, ac mewn gweddiau." . . . . . . "A'r rhai a gredent oll oeddynt yn yr un man."

Y mae yn hawdd i ni ddeall bod parhad y cyd-gyssylltiad yna rhwng holl aelodau ei gorph yn angenrheidiol er cyflawn ogoniant Bywyd Crist yn y

ddynoliaeth brynedig. Nid oes modd cael cyflawnder Bywyd Crist, heb gyflawnder doniau yr Yspryd. Ond nid oes yr un dyn, nac yr un dosparth o ddynion, yn derbyn holl ddoniau a gweinidogaethau, a gweithrediadau yr Yspryd, ond (1 Cor. xii. 11) "yr holl bethau hyn y mae yr un a'r unrhyw Yspryd yn eu gweithredu, gan rannu i bob un o'r neilldu, megis y mae yn ewyllysio." O ganlyniad nid oes yr un dyn, nac un genedl ychwaith, wedi cael cyflawnder yr Yspryd. Y mae pob dyn a phob cenhedl wedi cael cymhwysder neillduol i dderbyn rhyw ddawn ysprydol. Ac felly pan y cyd-gyssylltir holl feibion y ddynoliaeth yn undeb yr Eglwys, bydd gan bob aelod yn y corph anfeidrol ei ddawn neillduol i gyfrannu i fywyd yr Eglwys, er egluro golud gogoniant Crist. Y mae pob dosparth yn alluog i gyfranu i ddosparth arall ryw ddawn ysprydol nad oes ganddo. Y mae y tlodion yn dwyn golud ysprydol i'r cyfoethogion, a'r cyfoethogion i'r tlodion.

Felly hefyd y mae pob cenhedl wedi cael rhyw ddawn nad yw yn perthyn i un genhedl arall. Ac felly pan ddaw yr holl genhedloedd ynghyd mewn cyd-gyssylltiad yn undeb yr Eglwys, daw gwynebpryd Bywyd Dwyfol Crist, yn fwy amlwg yn ei holl ogoniant, i'r golwg, fel y credo y byd mai y Tad a'i hanfonodd. Pan gyweirir holl dannau telyn dynoliaeth, yng nghyd-gyssylltiad pob "cenhedl, a llwythau, a phobloedd, ac ieithoedd" (Dat. vii. 9) i foliannu y Oen—

> "Rhyw newydd wyrth o'i angeu drud,
> A ddaw o hyd i'r goleu."

Y mae ymranniadau gan hynny yn tywyllu gogoniant Crist, ac yn dyrysu cydgordiad anthem yr Eglwys. Am hynny y mae yr hwn a ymadawo â'r "Un Gatholig ac Apostolig Eglwys" yn pechu yn erhyn yr Hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc. Y mae pob plaid sydd yn byw o'r naill du oddiwrth gorph yr Eglwys yn derchafu rhyw ochr neillduol o'r gwirionedd, ac yn colli golwg ar bob ochr arall; yn meithrin rhyw un

dosparth neillduol o ddoniau ysprydol, ac yn esgeuluso doniau ereill; ac felly y mae y bywyd crefyddol yn eu plith yn myned yn unochrog, ac yn gul ac amherffaith. O ganlyniad maent yn colli gwynebpryd yr Arglwydd. Am hynny y mae yr Apostol yn gorchymyn i'r Eglwys fod ar ei gwyliadwriaeth yn erbyn yspryd ymneillduaeth. (Rhuf. xvi. 17,) "Yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, graffu ar y rhai sydd yn peri anghydfod a rhwystrau yn erbyn yr athrawiaeth a ddysgasoch chwi, a chiliwch oddiwrthynt." Yn yr un modd y mae yn ceryddu pleidiau Corinth yn llym, gan ofyn yn eiddigus, (1 Cor. i. 13,) "A rannwyd Crist?" Ac y mae yn eu hannog i adael eu pleidiau, ac i gydymffurfio â'r Eglwys, mewn undeb genau, meddwl, ac yspryd. (1 Cor. i. 10,) "Yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, trwy enw ein Harglwydd Iesu Grist, ddywedyd o bob un o honoch chwi yr un peth, ac na byddo ymbleidio yn eich plith; eithr bod o honoch wedi eich cyfan gyssylltu yn yr UN meddwl, ac yn yr UN farn." Nid oes dim modd i ddynoliaeth gael ei hail greu, a'i hadeiladu ar ddelw Crist, heb gadw Undeb y corph.

Os rhannir Crist trwy ymbleidio diddiwedd, nid oes modd i eneidiau (Eph. iv. 15, 16) "gynyddu iddo Ef ym mhob peth, yr hwn yw'r Pen, sef Crist: o'r Hwn y mae'r holl gorph wedi ei gyd-ymgynnull a'i gydgyssylltu, trwy bob cymmal cynnaliaeth, yn ol nerthol weithrediad ym mesur pob rhan, yn gwneuthur cynnydd y corph, i'w adeiladu ei hun mewn cariad."

Ond y mae rhai yn barod i ddywedyd, "Nid oes gobaith am undeb; y mae cynnifer o bleidiau, a chymmaint o ymrannu." Ond gan fod rhwymedigaeth undeb yn gorwedd ar bob enaid, y mae yn rhaid i'r enaid hwnnw ufuddhau neu dderbyn cospedigaeth. Y mae sancteiddrwydd yn ammherffaith iawn, ond nid ydyw diffyg sancteiddrwydd y byd ddim yn dy gyfiawnhau di, enaid, os byddi yn ansanctaidd. Felly er bod ymbleidio ac ymneillduo oddiwrth Eglwys yr anfoniad cyntaf a'r urddau apostolaidd, cyfundrefn yr hon a ddewisodd yr Arglwydd i "beri i'w enw arhos

yno," (Deut. xii. 11,) nid ydyw hynny ddim yn dy gyfiawnhau di, enaid, am rwygo corph Crist a phechu yn erbyn undeb Dwyfol, trwy adael cymdeithas yr Apostolion. Duw a ganiattao ddyfodiad y dydd pan y gwelir Jerusalem etto "fel dinas wedi ei chyd-gyssylltu ynddi ei hun."

Megis y mae undeb i nodweddu bywyd yr Eglwys, a'r holl aelodau i gyd-breswylio mewn cyfan-gyssylltiad o amgylch gorsedd y Gogoniant yn y cyssegr, felly y mae undeb i nodweddu bywyd mewnol pob enaid, a holl feddyliau a theimladau y galon i gael eu dwyn dan rwymedigaeth cyd-gyssylltiol teyrnas Crist o'i mewn. (St. Matth. vi. 33,) "Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder Ef." Pan fydd cariad Crist yn teyrnasu ar orsedd y galon, bydd undeb mewnol yr enaid yn berffaith. (2 Cor. x. 5,) "Gan fwrw dychymygion i lawr, a phob uchder sydd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw, a chan gaethiwo pob meddwl i ufudd-dod Crist." Ni bydd yno yr un meddylfryd yn gwrthryfela yn erbyn meddwl Crist, nac un sarhad yn ymneillduo oddiwrth ddelw ei wynebpryd. Ond bydd yr oll fywyd oddifewn wedi ei gyd-gyssylltu dan rwymedigaeth un egwyddor— Duw a roddes i ni brofiad o'r undeb dwyfol hyn. (Cor. iii. 15,) "Llywodraethed tangnefedd Duw yn eich calonau, i'r hwn hefyd y'ch galwyd yn un corph."

2. Undeb Cymdeithas a Chyd-gynnulliad— "Yno yr esgyn y llwythau, llwythau yr Arglwydd, yn dystiolaeth i Israel, i foliannu enw'r Arglwydd."

Gan fod Undeb yn un briodoledd ym Mywyd y Duwdod, ac o ganlyniad yn un o rwymedigaethau ysprydol yr Eglwys, gwnaethpwyd trefniadau gan y Deddfroddwr i sicrhau ufudd-dod y bobl etholedig i'r egwyddor ddwyfol, trwy eu cadw mewn un cymmundeb bywiol a gweledig. Pa fodd y gwnaethpwyd y trefniadau hyn? Gan nad oedd gwynebpryd yr Arglwydd yn ymddysgleirio mewn un man yn ei gyflawn eglurhad, heblaw uwchben yr Arch yn y Cyssegr Sancteiddiolaf, yr oedd yr holl bobl i gael eu cyd-

gasglu, trwy rym attynniad ysprydol, dair gwaith yn y flwyddyn, tuag at y canolbwynt hwnw, sef "y lle a ddewisodd yr Arglwydd." Yn Deut. xii. y mae Moses drachefn a thrachefn yn gorchymyn i Israel wylied rhag ymneillduo oddiwrth ganolbwynt Cynddrychioldeb yr Arglwydd, trwy ffurfio cyfundrefn o grefydd ar wahan oddiwrth y lle dewisedig—(ad. 4, 5,) "Na wnewch felly i'r Arglwydd eich Duw. Ond y lle a ddewiso yr Arglwydd eich Duw o'ch holl lwythau chwi, i osod ei Enw yno, ei drigfa Ef a geisiwch, ac yno y deuwch." Ac yna (ad. 13) ychwanega, "Gwylia arnat rhag poeth-offrymmu o honot dy boeth-offrymmau ymhob lle a'r a welych; ond yn y lle a ddewiso'r Arglwydd o fewn un o'th lwythau di." Ac ymhellach, yn Deut. xvi. 5, 6, y mae yn ail fynegu ewyllys yr Arglwydd fel hyn—"Ni elli aberthu y Pasg o fewn yr un o'th byrth, y rhai y mae yr Arglwydd dy Dduw yn eu rhoddi i ti: ond yn y lle a ddewiso yr Arglwydd dy Dduw i roddi ei Enw ef yno." Yn yr un bennod y mae y gorchymmyn yn cael ei wasgu at gydwybod Israel bron yn yr un geiriau, bum' gwaith, rhag i'r genedl anghofio ei rhwymedigaeth.

Felly yr ydym yn cael fod y genedl am oesoedd wedi cadw y gorchymyn yn ufudd. Ymha le bynnag yr oedd Duw yn ei Ragluniaeth yn gosod Arch y Dystiolaeth fel canolbwynt ei Eglwys, yno yr oedd y llwythau yn ymgynnull yn ol geiriau Moses, i addoli yr Hwn oedd yn eistedd uwch y Drugareddfa. "Tair gwaith yn y flwyddyn yr ymddengys pob gwrryw o honot o flaen yr Arglwydd dy Dduw, yn y lle a ddewiso Efe; ar wyl y bara croew, ac ar wyl yr wythnosau, ac ar wyl y pebyll."

Pan yr oedd y genhedl yn ansefydlog yr oedd yr Arch yn ansefydlog hefyd; ond lle bynnag yr oedd yr Arch, yno yr oedd craiddgyrchiad crefydd y genhedl. Pan y gosodwyd yn Siloh (Josua xviii. 1,) "Holl gynnulleidfa meibion Israel a ymgynnullasant i Siloh."

Yno hefyd yn yr un cyfnod yr oedd Elkanah yn myned bob blwyddyn (1 Sam. i. 3,) "I addoli ac i

aberthu i Arglwydd y Lluoedd, yn Siloh." Fel yr adroddais o'r blaen yr oedd undeb y llwythau o amgylch y canolbwynt wedi ymddangos mewn perygl am ennyd fechan, pan adeiladwyd allor wrth yr Iorddonen gan y ddau lwyth a hanner. (Josua xxii. 10—23, 29.) Ond aeth y cwmmwl heibio pan esponiwyd y diben—mai nid adeiladu allor yr oeddynt i "droi oddiar ol yr Arglwydd," ond i fod yn offeryn i fytholi eu cyssylltiad â chraidd crefydd y genhedl. "Na atto Duw i ni wrthryfela yn erbyn yr Arglwydd, a dychwelyd heddyw oddiar ol yr Arglwydd gan adeiladu allor i boethoffrwm, i fwyd-offrwm, neu i aberth, heblaw allor yr Arglwydd ein Duw, yr hon sydd ger bron ei dabernacl Ef."

Ar ol llawer o symmudiadau yn amseroedd ansefydlog y genedl, ar y diwedd gosodwyd yr Arch trwy rinwedd buddugoliaethau Dafydd mewn pabell yn Jerusalem, i arhos ei sefydliad o fewn muriau y deml a adeiladwyd gan Solomon. Ac o'r amser hyny hyd ddinystr y ddinas sanctaidd gan Titus, a gwasgariad diweddaf y genedl, Jerusalem oedd y "lle a ddewisodd yr Arglwydd i beri i'w enw arhos yno." Ac felly am Jerusalem y dywed y Salmydd, "Yno yr esgyn y llwythau."

Ond ar ol marwolaeth Solomon, trwy bechod Rehoboam yr achoswyd rhwyg yn undeb y genhedl, ac y temtiwyd rhan fawr o honi i ymneillduo oddiwrth allorau ac Arch yr Arglwydd. Pan orthrymmodd y brenhin y bobl, ac y ceisiodd eu gwasgu dan iau haiarnaidd, gwrthryfelodd y deg llwyth. Ffurfiasant frenhiniaeth annibynol, a dewisasant Jeroboam, mab Nebat, gŵr doniol, galluog, ond uchel-geisiol a diegwyddor—i deyrnasu arnynt. Ac yn fuan iawn yr arweiniodd yr ymrwygiad gwladol ymlaen i ymrwygiad llawer mwy pwysig yn mywyd crefyddol y genhedl. Mewn yspryd gwrthryfeliad ac uchelgais politicaidd yr esgorwyd ar yr ymrwygiad yma. Er mwyn cadw pobl Israel dan ei ddylanwad ei hun yn ei frenhiniaeth ymneillduol, penderfynodd Jeroboam wneuthur

ei oreu i'w cadw hwynt rhag myned i Jerusalem, o fewn terfynau Judah. (1 Bren. xii. 26, 27,) "A Jeroboam a feddyliodd yn ei galon, Yn awr y dychwel y frenhiniaeth at dŷ Ddafydd; os â'r bobl hyn i fynu i wneuthur aberthau yn nhŷ'r Arglwydd yn Jerusalem, yna y try calon y bobl hyn at eu harglwydd Rehoboam, brenin Judah, a hwy a'm lladdant i."

Er mwyn diogelu ei fywyd a'i fantais ei hun, penderfynodd ddarganfod cyfundrefn newydd o grefydd, mewn dynwarediad o gyfundrefn ddwyfol awdurdodedig Jerusalem. Ac er mwyn twyllo y bobl i gilio oddiar ol yr Arglwydd, haerodd yn gadarn mai y grefydd newydd, a ddarganfyddwyd ganddo yn ol esponiadau ei farn unigol, oedd y grefydd bur, a'r hên grefydd a dywysasai Israel trwy ddyfroedd y Môr Coch; ac nad oedd crefydd yr Eglwys genhedlaethol ddim ond llygredigaeth goelgrefyddol. (1 Bren. xii. 28, 29. "Yna'r brenhin a ymgynghorodd, ac a wnaeth ddau lô aur, ac a ddywedodd wrthynt hwy, Gormod yw i chwi fyned i fynu i Jerusalem: wele dy dduwiau di, O Israel, y rhai a'th ddug di i fynu o wlad yr Aipht. Ac efe a osododd un yn Bethel, ac a osododd y llall yn Dan." Ond nid oedd dim yn ddigon iddo ffurfio cyfundrefn o addoliad. Yr oedd yn rhaid cael dynion poblogaidd i berswadio y bobl i ymlynu wrth yr allorau ymneillduol, ac i godi rhagfarn yn eu meddyliau yn erbyn Jerusalem. Gwrthododd yr Offeiriaid urddedig a'r Lefiaid weinyddu yng nghyfundrefn ddiawdurdod y brenhin ymneillduol, a dychwelasant i Judah a Jerusalem. (2 Cron. xi. 13, 14.) O ganlyniad rhyfygodd Jeroboam greu urddau mewn dynwarediad o urddau Aaron a llwyth Lefi i weinyddu yn ei uchelfeydd. (1 Bren. xii. 31.) "Efe . . a wnaeth offeiriaid o'r rhai gwaelaf o'r bobl, y rhai nid oedd o feibion Lefi." (1 Bren. 33, 34,) "Y neb a fynai, efe a'i cyssegrai ef, ac efe a gâi fod yn offeiriad i'r uchelfeydd. A'r peth hyn a aeth yn bechod i dŷ Jeroboam, i'w ddiwreiddio hefyd, ac i'w ddileu oddiar wyneb y ddaear." Yr oedd dylanwad y gweithrediadau hyn yn parhau

am oesoedd i wanhau Judah, i lygru Israel, ac i gymmylu gogoniant yr Arglwydd yn yr Eglwys, nes yn y caethgludiad y machludodd yn hollol am amser. (2 Bren. xvii. 21, 22,) "Jeroboam a yrrodd Israel oddi ar ol yr Arglwydd, ac a wnaeth iddynt bechu pechod mawr. Canys meibion Israel a rodiasant yn holl bechodau Jeroboam, y rhai a wnaeth efe, heb gilio oddiwrthynt." Yr oedd dylanwad annhrefn ymneillduol Israel yn llygru awyrgylch Judah, ac yn hudo llawer o'r gweiniaid a'r anwybodus yn Judah i geisio ffafr y bobl, trwy ddilyn defodau a dulliau diawdurdod Israel. (2 Bren. xvii. 19,) "Ni chadwodd Judah chwaith orchymmynion yr Arglwydd eu Duw, eithr rhodiasant yn neddfau Israel y rhai a wnaethant hwy."

"Israel a rodiasant," medd yr hanes, "yn holl bechodau Jeroboam . . . . heb gilio oddiwrthynt." Ar ol sefydlu cyfundrefn bechadurus, a denu y lliaws i ymgysylltu â hi, nid hawdd ydyw ei dileu. Y mae yn anhawdd perswadio y bobl i gilio oddiwrthi. Felly y bu yn Israel ar ol dyddiau Jeroboam. Yr oedd cenhedlaeth newydd wedi cyfodi. Nid oeddynt hwy erioed wedi bod dan ddylanwad Jerusalem. Nid oeddynt yn deall deddfau a barnedigaethau y drefn a osododd yr Arglwydd. Yn addoliad Dan a Bethel yr oeddynt wedi cael eu magu. Gormod fuasai disgwyl iddynt gilio oddiwrth y gyfundrefn ymneillduol. Yr oedd dylanwad amser yn gweithredu fel hyn o blaid ei pharhad, ac yr oedd llawer o ddylanwadau ereill yn tueddu yn yr un cyfeiriad.

Yr oedd angenrheidiau sefyllfa boliticaidd y rhai oedd yn blaenori ar Israel yn eu gorfodi i rwystro y bobl rhag dychwelyd i Jerusalem. Gyda diflanniad trefn Dan a Bethel buasai eu hawdurdod a'u blaenoriaeth ar y bobl yn darfod hefyd. Gormod fuasai disgwyl iddynt gyflawni hunanladdiad cymdeithasol.

A thrachefn, yr oedd byddin fawr o offeiriaid ymneillduol yr uchelfeydd wedi dyfod i fodolaeth. Yr oedd parhad eu gweinidogaeth a'u bywioliaeth yn ymddibynnu ar lwyddiant eu hymdrechion i ddiogelu

yr allorau Jeroboamaidd, a lladd dylanwad attynniadol Jerusalem. Yr oeddynt gan hynny yn llafurio yn ddiwyd i gadw eu dylanwad ar y bobl. Y mae yn ddiammheuol fod llawer o honynt, yn defnyddio doniau mawr i gynhyrfu teimladau pobl Israel yn erbyn yr Offeiriaid rheolaidd a'r Lefiaid oedd wedi etifeddu y meusydd pentrefol a'r rhandir Eglwysig. Yr oeddynt yn twyllo y bobl i gredu mai unig reswm y Lefiaid a'r Offeiriaid yn gwahodd y llwythau yn ol i Jerusalem oedd awydd, nid i ddiogelu trefn yr Arglwydd, ac arwain y bobl i'r "lle a ddewisodd efe," ond i dderchafu eu hunain a'u sefyllfa. Yn aml iawn y byddent yn ceisio perswadio y bobl nad oedd y Lefiaid a'r Offeiriaid ddim yn gweinidogaethu o gariad cydwybodol at y cyssegr, ond er mwyn y meusydd pentrefol a'r meddiannau a rannwyd iddynt gan gyfraith Moses; ond eu bod hwy wedi gadael eu gorchwylion ymhlith gwehilion y bobl, dan ddylanwad yspryd zel ac hunanaberth yn chwythu arnynt, ac yn eu derchafu i sefyll wrth ben y bobl ar yr uchelfeydd, er mwyn eu hachub odditan awdurdod Jerusalem.

Yr oeddynt yn twyllo llawer o'r gweiniaid anwybodus i gredu nad oedd addoliad yr Arglwydd yn Jerusalem, ac ufudd-dod i Arch y Dystiolaeth, ddim ond ofergoeledd llygredig mewn cydmhariaeth i'r athrawiaethau newydd a'r defodau dengar oedd yn cael eu darganfod ganddynt hwy "yn yr oes oleu honno," yn Dan a Bethel. Yr oeddynt yn haeru yn ddiammheu nad oedd achau offeiriadol tŷ Aaron a llwyth Lefi ddim yn hytrach na choeg-olyniaeth, ac mai hwynt-hwy oedd gwir ddilynwyr etholedigion yr Arglwydd, a phendefigion y bobl. Yr oeddynt yn barod i ymuno mewn cyngrair â phob gallu yn erbyn Jerusalem. Pe buasai yr argraffwasg wedi ei darganfod yn y dyddiau boreol hynny, nid oes gennyf ammheuaeth na fuasent hwy yn cyhoeddi deg o newyddiaduron (un i bob llwyth) er mwyn lledaenu dylanwad Daniaeth a Betheliaeth, ac er mwyn creu rhagfarn yn erbyn Jerusalem. Gwell oedd ganddynt weled y bobl

yn myned ar ol Baal, nac yn ol i addoli yr Arglwydd yn Jerusalem. Nid rhyfeddol ydoedd bod yr holl ddylanwadau hyn wedi llwyddo i gadw pobl Israel rhag cilio yn ol o bechodau Jeroboam, trwy ddychwelyd i addoli ger bron Arch y Dystiolaeth yn y lle dewisedig.

Beth oedd canlyniad parhad yr ymranniad yma? Y mae Crist wedi dywedyd fod ufudd-dod i ddeddf ysprydol Undeb yn angenrheidiol i alluogi dynion i adnabod y Duwdod ymgnawdoledig. Y mae yn gysson â'r gwirionedd hwn bod y llwythau a bechasant yn erbyn undeb, yn raddol wedi colli pob coffadwriaeth ac adnabyddiaeth o enw yr Arglwydd, wedi eu gyrru o'i ŵydd Ef, ac wedi ymgolli mewn tywyllwch ymhlith y cenhedloedd, tu hwnt i ammodau yr addewid. Caethgludwyd llwythau Israel, a chaethgludwyd Judah hefyd. Yn amser da Duw, cafodd Judah ddychwelyd o gaethiwed, i ail feddiannu tir yr addewid. Ond i Israel nis gadawyd gweddill o gadwedigion. Collodd y deg llwyth ymneillduol dir yr addewid ysprydol am byth; ac aethant allan o gylch dylanwadau adnewyddol Yspryd yr Arglwydd, i arhos mewn tywyllwch ac ebargofiant tragywyddol. Y mae hyn yn brawf mai y llwythau a barhasant i lynu wrth Arch y Dystiolaeth, ac i esgyn i Jerusalem, oedd llwythau "yr Arglwydd."

Ond hyd yn nod yn amser mwyaf tywyll y caethgludiad, yr oedd ffydd a chariad pobl yr Arglwydd yn parhau i esgyn i Jerusalem yn yr yspryd, pan yr oeddynt hwy yn y wlad bell. Oddiwrth afonydd Babilon tua Jerusalem yr oedd y serchiadau yn esgyn ar adenydd hiraethog. (Salm cxxxvii. 5,) "Os anghofiaf di, Jerusalem, anghofied fy neheulaw ganu." Pan yr oedd gweddiau Daniel dair gwaith yn y dydd yn esgyn tua'r orsedd, yr oedd ef (vi. 10) "a'i ffenestri yn agored yn ei ystafell tua Jerusalem."

Yn amser da (Neh. i. 5) "Arglwydd Dduw y nefoedd, y Duw mawr ac ofnadwy, yr hwn sydd yn cadw cyfammod a thrugaredd i'r rhai a'i carant Ef, ac a

gadwant ei orchymynion," yn ol ammodau yr addewid, daeth dydd yr adferiad.

Ail adeiladwyd muriau Jerusalem, ac ail agorwyd tŷ yr Arglwydd. Ac o hynny ymlaen, ar hyd dyddiau henaint ei gyrfa, Jerusalem a barhaodd i dynnu ati ei hun gynnulliad pobl yr Arglwydd.

Yn y Testament Newydd yr ydym yn cael trefn y cyd-esgyniad yn parhau. Pan yr oedd y Gair Dwyfol a breswyliodd gynt rhwng y cerubiaid wedi "ei gael mewn dull fel dyn" (St. Luc ii. 41,) "Ei rieni ef a aent i Jerusalem bob blwyddyn ar wyl y Pasg." Yn yr un modd yr ydym yn cael bod yr Arglwydd Iesu, yng ngyrfa ei Ddwyfol-ddynoliaeth, wedi cyflawni y gyfraith hon yn ol arferiad y genhedl Iuddewig, trwy fyned ar y gwyliau i Jerusalem. Ac yn Jerusalem y darfu iddo gadw y Pasg olaf, a chyflawni yr hunan-aberth ar y groes, trwy ba un y taenellodd Efe y Drugareddfa dragywyddol â gwaed y prynedigaeth, ac a ennillodd i ni "ryddid i fyned i mewn i'r cyssegr," i sefyll ger bron yr orseddfaingc. Ac yn Jerusalem y gorchymmynodd efe i'w Apostolion arhos am dywalltiad yr Yspryd Glan, a chyflawniad addewid y Tad. Er bod Jerusalem wedi lladd y prophwydi, ac wedi croeshoelio Mab Duw, etto yr oedd yr addewid yn arhos yn sicr yn "y lle a ddewisodd yr Arglwydd." (Actau i. 4,) "Wedi ymgynnull gyda hwynt, efe a orchymmynodd iddynt nad ymadawent o Jerusalem, eithr disgwyl am addewid y Tad."

Ond ar ol tywalltiad yr Yspryd Glan ar yr Apostolion, yr oedd bywyd yr Eglwys yn ymryddhau megis o blisgyn ŵy cyfundrefn leol yr hen oruchwyliaeth, ac yn cael adenydd i ehedeg hyd eithafoedd y ddaear. Ar ddydd y Pentecost cafodd yr Apostolion ynddynt eu hunain weinidogaeth Arch y DYSTIOLAETH, a chwmmwl gogoniant y Shecinah, yn ol yr addewid. (Act. i. 8,) "Derbyniwch nerth yr Yspryd Glan . . . a byddwch DYSTION i mi." O ganlyniad, yr oedd gweinidogaeth pob Apostol yn dwyn Arch y Dystiolaeth a chwmmwl y gogoniant i bob gwlad

lle yr elai. Yn ei athrawiaeth, a lefarai trwy dywysiad yr Ysbryd Glan, yr oedd yn dwyn "TYSTIOLAETH yr Arglwydd." Pan yn gweinyddu y Cymmun Bendigaid, a thrwy nerth yr Ysbryd Glan yn gwneuthur y bara a'r gwin yn fywiol ac ysprydol gorph a gwaed Crist, yr oedd yn dangos i eneidiau y ffyddloniaid, mewn cwmmwl o ogoniant, wynebpryd y Duwdod ag oedd wedi bod yn preswylio mewn corph a gwaed. O ganlyniad, ar ol y Pentecost, dywedir am holl lwythau Eglwys weledig Duw, nid "y maent yn esgyn i Jerusalem," ond y maent yn "parhau yn athrawiaeth ac yng nghymdeithas yr Apostolion." Felly yr oedd gan bob Apostol awdurdod i gyfeirio eneidiau at ei weinidogaeth fel canolbwynt i'w attynnu at Dduw yng Nghrist. (Phil. iii. 17,) "Byddwch ddilynwyr i mi, frodyr, ac edrychwch ar y rhai sydd yn rhodio felly, megis yr ydym ni yn siampl i chwi."

Ond i ddyfod at ein gwlad a'n dydd a'n hamgylchiadau ni, pa le y mae y canolbwynt sydd i attynnu ein heneidiau?

I ba le y mae i ni esgyn "ger bron yr Arglwydd?" Pa le y cawn ni "athrawiaeth a chymdeithas yr Apostolion?" Fel y dywedais eisoes, ymhob un o Eglwysi ein gwlad, y mae athrawiaeth yr Apostolion yn tystiolaethu am Grist, ac y mae gweinidogaeth yr Apostolion yn cyfrannu corph a gwaed Crist, ac yn derchafu mewn dirgelwch oleuni ei wynebpryd ef ger bron yr enaid.

Y mae yn wir fod dnwinyddion hunan-dybiol y llwythau Ymneillduol yn gwadu fod Crist yn dangos llewyrch ei wynebpryd mewn cynddrychioldeb goruwchnaturiol yn y Cymmun Bendigaid. Nid ydynt yn cydnabod bod ei Fywyd Dwyfol-ddynol yn llewyrchu yn y dirgeledigaethau sancteiddiol mewn cwmmwl o ogoniant. Y maent yn neshau i'r Cyssegr Sancteiddiolaf, ac oherwydd nad oes dim gwynebpryd gweledig i'w golwg anianol, dywedant, fel y brenhin paganaidd yn nheml Jerusalem, eu bod wedi ei gael

yn wag. Gofynant yn rhyfygus am y Bara a'r Phiol bendigedig, "Onid bara a gwin ydynt?" Yr oedd yr un dallineb anianol yn tywyllu eneidiau yr Iuddewon rhag cydnabod gwynebpryd y Duwdod wedi ymgorphori yn Mab y Dyn. Gofynent mewn gwawd, a adseinir gan lais y dyrfa Ymneillduol y dyddiau hyn (St. Math. xiii. 55,) "Onid hwn yw mab y saer?" Nid oedd neb ond y rhai oedd wedi ymostwng i ganlyn rhodiad ei Ddwyfol-ddyndod, yn cael esgyn i'r tir uchel, i weled gogoniant ei Dduwdod yn ymddangos allan o "ddirgelwch duwioldeb," a chanfod pryd dynol Crist, yr Hwn oedd yn ddirmygedig gan ddynion anianol, yn cael "ei weddnewid yn ei gŵydd hwynt," (St. Marc ix. 2,) felly nid oes neb yn cael gweled, â llygad ffydd ysprydol, ogoniant ei gynddrychioldeb yn y Cymmun Bendigaid, ond y rhai sydd wedi ei ddilyn yn ei gorph (yr Eglwys) gyda chariad diysgog, yn ol ei addewid: (St. Ioan xiv. 21,) "Yr hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad; a minnau a'i caraf ef, ac a'm HEGLURAF fy hun iddo."

Aeth Eglwys Jerusalem trwy gyfnewidiadau, a chafodd ei diwygio yn amser Hezekiah a Josiah a brenhinoedd ereill, ond yr oedd Arch y Dystiolaeth ac offeiriadaeth Tŷ Aaron yn arhos trwyddynt oll ac yn diogelu parhad gogoniant y cyssegr. Felly trwy ei holl gyfnewidiadau y mae ein Heglwys wedi cadw y Credoau apostolaidd, ac urddau y weinidogaeth apostolaidd, ac felly wedi cadw ammodau yr addewid am "wyneb yr Arglwydd." Am hynny, frodyr, gallwn neshau yn hyderus at byrth ein Heglwys. Ei chyssegr ydyw y canolbwynt ysprydol yn yr hwn y mae enw yr Arglwdd yn arhos, ac i'w chynteddau y mae pob enaid yn ein gwlad dan rwymedigaeth i esgyn.

Ond pa le y mae y llwythau? Yng Nghymru y mae llawer o honynt wedi cilio o "ŵydd yr Arglwydd." Ac yn Lloegr hefyd y mae rhwyg mawr wedi cymmeryd lle. Yn y ganrif ddiweddaf yr oedd anffyddiaeth wedi ymdaenu dros gyfandir Ewrop. Yn Ffraingc bu fel corwynt cryf oddiar yr anialwch yn achosi chwyldroad

a dinystr, ac am yspaid ciliodd y genhedl oddiwrth yr Arglwydd, gan ddiddymmu holl ordinhadau ei wasanaeth. Yn ein gwlad ninnau yr oedd awelon anffyddol yn llethu ac yn marweiddio bywyd ysprydol y genhedl. Yr oedd yr Eglwys wedi ymfarweiddio, deddfau yr Arglwydd wedi myned i ebargofiant, meibion Eli yn gwneyd i'r bobl ffieiddio offrwm yr Arglwydd.

Yn y dyddiau hynny cyfododd John Wesley yn brophwyd yn Lloegr, a Rowlands Llangeitho, ynghyd ag ereill, yng Nghymru, i ddihuno y bobl o drwm gwsg difaterwch crefyddol.

Nid oeddynt yn bwriadu gwrthwynebu yr Eglwys, na chodi allor newydd yn erbyn yr allorau awdurdodedig, i bechu yn erbyn undeb Duw. Eu bwriad ydoedd i weithio gyda'r Eglwys, ac nid yn ei herbyn. Gwaharddodd John Wesley i'w gydweithwyr lleygol yn y gymdeithas, ryfygu gweinyddu y Cymmun Bendigaid heb awdurdodiad rheolaidd gan olynwyr yr Apostolion. Naw mis cyn ei farwolaeth rhybuddiodd hwynt yn gyhoeddus rhag gwneuthur hynny, gan ddywedyd wrthynt y byddent yn euog o bechod Korah, Dathan, ac Abiram. Parhaodd hyd y diwedd i orchymmyn i'w ganlynwyr arhos o fewn yr Eglwys "yng nghymdeithas yr Apostolion," trwy fynychu addoliad yr Eglwys, a chyfrannogi o'r dirgeledigaethau sancteiddiol yn ei chyssegroedd. Felly y parhaodd y Methodistiaid Wesleyaidd yn Lloegr, ac yn yr un modd y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru i ymlynu wrth yr Eglwys, ac i ymogelyd rhag Ymneillduaeth am lawer o flynyddoedd. Ond ar y diwedd y mae uchelgais y pregethwyr wedi eu temtio i gymmeryd iddynt eu hunain yr offeiriadaeth, heb eu galw gan Dduw, megis Aaron; i dorri undeb crefyddol; i rwygo y genhedl yn sectau candryll; i gynhyrfu rhagfarn y bobl yn erbyn yr Eglwys; i bleidio cyfundrefn o addysg ddigrefydd er mwyn lleihau dylanwad ei dwyfol dystiolaeth; i geiso yspeilio etifeddiaeth ei rhandir er mwyn boddhau eu cenfigen pleidiol; ac i ddefnyddio pob dylanwad o fewn eu cyrhaedd yn y wasg, ar yr areithfa, ac

yn uchelfeydd y pwlpud, i iselu ein Jerusalem, ac i attal y teuluoedd Ymneillduol rhag dyfod yn ol i'r "lle a ddewisodd yr Arglwydd."

Yr oedd Wesley a Rowlands, a'u cydweithwyr, yn pregethu athrawiaethau yr Eglwys, ac yn cydnabod ei hawdurdod ysprydol, er bod meibion Eli yma a thraw wedi alltudio y bobl o'i phyrth hi. Yr oeddynt hwy yn cyflawni gwyrthiau yn enw Bywyd Dwyfol yr Eglwys. Nid oes achos gan hynny i'w condemnio hwynt. (St. Marc ix. 39,) "Na waharddwch iddo, canys nid oes neb a wna wyrthiau yn fy enw i, ac a allai yn y fan roi drygair i mi; canys y neb nid yw i'n herbyn, o'n tu ni y mae."

Y mae llawer ymhlith yr Ymneillduwyr etto yn coleddu yr un yspryd, yn gwneuthur gwaith yn ol egwyddorion yr Eglwys o'r tu allan i'r Eglwys. Nid ydynt yn rhoddi drygair i'r Eglwys. Ni byddai dim achos eu beio na'u gwahardd, oni bai eu presennoldeb hwynt yn y pleidiau Ymneillduol yn tueddu i roddi nerth i ddynion o yspryd gwrthryfelgar a dinystriol, ag ydynt yn gwadu enw yr Eglwys, yn ei chablu, ac yn defnyddio eu holl alluoedd yn "erbyn" ei gwaith a'i hawdurdod ysprydol. Yr ydwyf yn dywedyd wrth y terfysgwyr dinystriol, y rhai sydd, yn enw cydraddoldeb crefyddol, dan rith cyfiawnder, yn ymdrechu i sicrhau addysg ddigrefydd i blant, ac i ddadsefydlu ac yspeilio yr un Eglwys Lan Gatholig yn ein gwlad, eu bod hwy yn gwrthryfela yn erbyn yr Arglwydd, ac yn olynwyr i'r hwn a wnaeth i Israel bechu.

Y mae llawer iawn o nodweddion yn ymddangos yng ngwynebpryd yr ymneillduaeth Jeroboamaidd (fel y darlunir yn yr hanes dwyfol,) yn debyg i'r Ymneillduaeth sydd yn rhwygo y genhedl ac yn gwanhau yr Eglwys yn ein dyddiau ninnau. Y mae y tebygolrwydd yn ddigon i brofi eu perthynas teuluaidd, a'u bod wedi eu cenhedlu gan yr un yspryd.

Yr ydwyf wedi dangos bod awydd i ddiogelu ei fanteision, a phryder i amddiffyn ei sefyllfa ddaearol, yn cynhyrfu Jeroboam i ddefnyddio pob moddion i

gynnal achosion Dan a Bethel. Yr ydwyf wedi sylwi hefyd fod awydd offeiriaid afreolaidd ei gyfundrefn ymneillduol i ddiogelu parhad eu bywioliaeth yn eu cynhyrfu i greu rhagfarn ym meddyliau y bobl yn erbyn Tŷ yr Arglwydd yn Jerusalem, ac i attal y llwythau rhag myned yno at dystiolaeth yr Arglwydd. Onid oes dylanwadau cyffelyb i'r rhai hyn yn cael eu defnyddio er sicrhau parhad Ymneillduaeth yn ein gwlad ni? Y mae ugeiniau lawer o filoedd o ddyledion ar Gapeli Ymneillduol Cymru. Y mae rhai o bregethwyr blaenaf Ymneillduaeth Gymreig wedi dywedyd mai doeth ydyw cadw y capeli mewn dyled, oherwydd bod y rhwymedigaeth arianol yn tueddu i symbylu y blaenoriaid i gadw y cynnulleidfaoedd wrth eu gilydd. Onid ydyw y dylanwad yna yn ddylanwad hollol afiachus? Onid ydyw yn llawn mor ddaearol a'r uchelgais cyfrwys oedd yn symbylu Jeroboam i ddenu pobl Israel i blygu gliniau gerbron lloi Dan a Bethel, ac i droi eu cefnau ar Dŷ yr Arglwydd, yr hwn oedd yn Jerusalem? Y mae pawb yn gwybod drachefn, fod bywioliaeth a sefyllfa y pregethwyr Ymneillduol yn ymddibynu ar eu llwyddiant i fytholi ymddieithriad y bobl oddiwrth yr Eglwys apostolaidd. Nid ydyw yn rhyfeddol (canys y mae yn naturiol) eu bod hwy yn llenwi ein dinasoedd â chythrwfl, gan ymosod yn haerllug ar weinidogaeth reolaidd yr Apostolion, a gwaeddi â llef uchel ar bob cyfleustra, (Actau xix. 28,) "Mawr yw Diana" Ymneillduaeth. Nid ydyw yn rhyfeddol bod rhai yn eu plith o'r hyn leiaf yn cael eu temtio i ymgynghori, gan ddywedyd, "Ha wŷr, chwi a wyddoch mai oddiwrth yr elw hwn y mae ein golud ni." Nid wyf yn ammheu bod llawer o ddynion duwiolfrydig ymhlith pregethwyr Ymneillduol Cymru. Ond nid am unigolion, eithr am ddosparth, yr ydwyf yn llefaru. Ac y mae yr agwedd a welwyd ar y dosparth hwn o ddysgawdwyr, pan yr oeddynt yng Nghynnadledd Addysg Aberystwyth, er mwyn cyfyngu dylanwad Crefyddol yr Eglwys, bron yn unfryd ac yn unllais yn pleidio

cyfundrefn o addysg ddigrefydd i ieuengctid ein gwlad, ac yn dywedyd wrth y genhedl am ddeddfau a gorchymmynion Duw, (Deuter. vi. 7,) Na "hyspysa hwynt i'th blant;" yn dangos eu bod hwy heddyw dan arweiniad yspryd daearol cenfigen a gelyniaeth ag sydd yn eu harwain i ymgrymmu mewn eithafol fannau pell iawn oddiwrth ddinas y Goruchaf. Y mae eu cyngrair â Seculariaid (Anianolion) y Deyrnas i ddadsefydlu ac yspeilio ein Heglwys yn ein gorfodi i restru llawer iawn o honynt gyda phlant Edom, y rhai a ddywedent am Jerusalem (Salm cxxxvii. 7,) "Dinoethwch hi, dinoethwch hi, hyd ei sylfaen."

Ond fy mrodyr, er gwaethaf holl lid ei gelynion, y mae awdurdod yr Eglwys i'ch ymlyniad chwi yn parhau. Megis yr oedd Eglwys Judah yn gorchymmyn i bob gŵr o'r holl lwythau fyned yn ol gosodiad Moses dair gwaith yn y flwyddyn ar y tair wyl i Jerusalem, ger bron yr Arglwydd, felly y mae Eglwys apostolaidd ein gwlad ni ymhob plwyf yn gorchymyn i bob un o'r plwyfolion ymgrymmu ger bron wyneb ysprydol Crist yn y Cymmun Bendigaid dair gwaith yn y flwyddyn. (Rhuddell ar ol gwasanaeth y Cymmun) "Nodwch hefyd, Bod i bob Plwyfol gymmuno *o'r lleiaf* dair gwaith yn y flwyddyn; ac o hynny bod y Pasg yn un." Ond nid ydyw yn ddigon cymmuno yn allanol, os na byddwn ni fyw yn yspryd y Cymmun yn ein cartrefleoedd ymhlith y llwythau ar hyd y flwyddyn. "Nesawn â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, wedi glanhau ein calonnau oddiwrth gydwybod ddrwg, a golchi ein corph â dwfr glân." (Heb. x. 22.) Cyn y gallwn ni fyned i fynu yn gymmeradwy i ymgrymmu gèr bron yr Arglwydd dair gwaith yn y flwyddyn *yn* Jerusalem, y mae yn rhaid i ni weddio fel Daniel dair gwaith yn y dydd yn y 'stafell, a'n ffenestri "yn agored *tua* Jerusalem." Felly y byddwn wirioneddol gyfrannogion o ddirgeledigaethau y Bywyd, ac y cawn yr Yspryd Glan i lewyrchu o fewn cyssegr y galon, "i roddi goleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yn wyneb Iesu Grist." (2 Cor. iv. 6.) Yna ni bydd raid i ni ofni

(2 Thess. i. 9) "Dinystr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid Ef." Cawn ein selio trwy yr Yspryd Glan â gobaith bywiol am esgyn i fynu gyda'r llwythau i gynteddau y Jerusalem fry, lle mae (Dat. vii. 9) "tyrfa fawr, yr hon ni allai neb ei rhifo, yn sefyll ger bron yr orseddfaingc, a cher bron yr Oen, wedi eu gwisgo mewn gynnau gwynion, a phalmwydd yn eu dwylaw; ac yn llefain â llef uchel, gan ddywedyd, Iachawdwriaeth i'n Duw ni, yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac i'r Oen."

3 "Undeb Barnol." "Yno y gosodwyd gorseddfeingciau barn, gorseddfeingciau tŷ Ddafydd."

Gan fy mod eisoes wedi helaethu cymmaint nid wyf am drin y pwngc hwn yn faith.

Wrth yr ymadrodd gorseddfeingciau barn credaf bod i ni ddeall mewn ystyr helaeth lywodraeth yr Eglwys, ac awdurdod i esponio a chymhwyso ei deddfau a'i barnedigaethau. Yn yr oes Batriarchaidd yr oedd y Patriarch yn eistedd ar yr orseddfaingc. Dywedodd yr Arglwydd am Abraham, (Genesis xviii. 19,) "Mi a'i hadwaen ef, y gorchymmyn ef i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ol, gadw ohonynt ffordd yr Arglwydd, gan wneuthur cyfiawnder a barn." Yn Eglwys yr anialwch yr oedd Moses a'r rhai a etholodd i fod gydag ef, yn eistedd ar y gorseddfeingciau barn. Pan yr oedd bywyd y genhedl yn derfysglyd ac ansefydlog yr oedd y gorseddfeingciau yn ansefydlog, ac ar rai amseroedd, pan nad oedd neb yn barnu Israel, yr oedd pob dyn yn gwneuthur yr hyn oedd uniawn yn ei olwg ei hun. Ond pan sefydlwyd bywyd y genhedl, ac y gosodwyd Arch y Dystiolaeth yn Jerusalem, dan ofal llwyth offeiriadol a thŷ Aaron, yna gosodwyd y gorseddfeingciau yno hefyd.

Yn amser ein Harglwydd Iesu y mae yn ymddangos bod gan y Phariseaid a'r ysgrifenyddion hawl swyddogol i eistedd ar y gorseddfeingciau barn, a phenderfynu pyngciau Eglwysig trwy esponio y ddeddf, er bod eu bucheddau yn hollol anghydweddol â'u sefyllfaoedd Eglwysig. (St. Matth. xxiii. 1, 2, 3.) "Yna y llefarodd

yr Iesu wrth y torfeydd a'i ddisgyblion, gan ddywedyd, Ynghadair Moses yr eistedd yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid. Yr hyn oll gan hynny a ddywedant wrthych am eu cadw, cedwch a gwnewch; eithr yn ol eu gweithredoedd na wnewch." Yn yr ymgnawdoliad yr oedd cyflawnder barn yn preswylio yn gorphorol yn Iesu Grist. (Ioan v. 22, 27.) "Y Tad nid yw yn barnu neb; eithr efe a roddes bob barn i'r Mab . . . . Ac a roddes awdurdod iddo i wneuthur barn hefyd, oherwydd ei fod yn Fab dyn." Ar ol esgyniad yr Arglwydd i'r nef, pa le y mae i ni edrych am y gorseddfeingciau sydd i farnu yr Eglwys? Yr oedd efe wedi rhagfynegu mai yr Apostolion oedd i lywodraethu llwythau Israel y Testament Newydd. (St. Matth. xix. 29.) "Yn wir, meddaf i chwi, y cewch chwi, y rhai a'm canlynasoch i, yn yr adenedigaeth, pan eisteddo Mab y Dyn ar orsedd ei ogoniant, eistedd chwithau ar ddeuddeg gorsedd yn barnu deuddeg llwyth Israel." Pa bryd y derchafwyd yr Apostolion i eistedd ar y gorseddfeingciau addawedig? Ar y diwrnod hwnw pan y gwisgwyd hwynt "â nerth o'r uchelder." O'r amser hwnnw hyd yr awr hon, yr Apostolion, yn goroesi yng ngweinidogaeth eu hâd, yn ol achau yr urddau trosglwyddedig, fel yr eglurais eisoes, sydd yn etifeddu awdurdod i weinyddu barn yn yr Eglwys. Cyn y gellir ffurfio barnedigaeth newydd o rwymedigaeth gyffredinol, y mae yn rhaid cael llais barnol yr holl orseddfeingciau. Y mae canrifoedd lawer wedi myned heibio er pan welwyd y gorseddfeingciau wedi eu cydosod, a'r holl deulu apostolaidd yn cydeistedd i farnu mewn Cynghor Cyffredinol. Ond am Gynghor Nicea a'r credo a ffurfiwyd yno (heblaw un gair) gellir dywedyd, (Act. xv. 22,) "Gwelwyd yn dda gan yr Apostolion a'r henuriaid, ynghyda'r holl Eglwys" benderfynu pyngciau y ffydd hon. O ganlyniad y mae penderfyniadau Cynghor Cyffredinol Nicea yn dwyn gyda hwynt rwymedigaeth gyffredinol ar bob enaid yn yr Eglwys apostolaidd. Gorseddfaingc Cynghor Cyffredinol, penderfyniadau yr hwn a gydnabyddir gan yr

holl Eglwys yn eu derbyn ar y pryd yn gyttûn, ydyw yr orseddfaingc weledig uchaf ar y ddaear, ac yn erbyn ei barn nid oes lle i appelio. (Nid oes achos i mi egluro bod cynghorion a elwir yn gyffredinol gan y Babaeth, yn gynghorion ffug-gyffredinol.)

Ond megis mewn llywodraethiad gwladol y mae gorsedd llys gwladol yn uwch-lywodraethu barn llŷs lleol, felly y mae yn yr Eglwys. Y mae y farn a draddodir yn gyttûn gan holl Apostolion y byd, yn fwy awdurdodol na'r farn a draethir gan lais Apostolion un genhedl. Felly y mae barn gyttunol holl Esgobion un wlad yn fwy awdurdodol na barn yr Esgob sydd yn eistedd ar orseddfaingc un Esgobaeth yn y wlad. Ac felly, er bod lle i appelio yn erbyn barn un Esgob at orseddfeingciau glwys-gynghorol Esgobion y wlad, ac yn erbyn barn Esgobion un wlad at farn holl Esgobion yr Eglwys Gatholig mewn Cynghor Cyffredinol; etto o fewn terfynau ei Esgobaeth ei hun, yr Esgob sydd yn eistedd ar orseddfaingc barn, ac y mae pob aelod o'r Eglwys yn rhwym o ufuddhau i'w benderfyniadau, os na byddant yn groes i farnedigaethau llysoedd mwy awdurdodol. Felly y mae yr Apostol Paul, mewn mannau lawer, yn son am awdurdod ei orseddfaingc. (2 Cor. x. 8,) "Pe bostiwn beth ychwaneg hefyd am ein hawdurdod, yr hon a roddodd yr Arglwydd i ni er adeilad, ac nid er eich dinystr chwi, ni'm cywilyddid." Yn yr Epistolau at Timotheus a Titus, Esgobion Ephesus a Chreta, y mae yn eglur bod St. Paul wedi trosglwyddo gyda'r urddau, yn arddodiad ei ddwylaw, awdurdod yr orseddfaingc apostolaidd i farnu o fewn terfynau yr Esgobaethau hynny. Gosododd Timotheus yn Ephesus (1 Tim. i. 3,) fel y gallai "rybuddio rhai na ddysgont ddim amgen." Felly hefyd y traddododd awdurdod i Titus; (i. 5,) "Er mwyn hyn y'th adewais yn Creta, fel yr iawn drefnit y pethau sydd yn ol, ac y gosodit henuriaid ymhob dinas, megis yr ordeiniais i ti." Felly y mae pob Esgob yn ymrwymo i farnu yn ei swydd, trwy "ddeol a tharfu ymaith bob amryfusedd ac athrawiaeth ddieithr,

yng ngwrthwyneb i Air Duw." (Llyfr Gweddi Gyffredin.)

Yn ein dyddiau ni y mae gwrthryfeliad cyffredinol yn erbyn y "gorseddfeingciau barn." Y mae pob duwinydd penffordd, hunanol, ymffrostgar, "a'i serch arno ei hun," (2 Tim. iii. 2.) os y gall ef ddarllen ychydig, yn meddwl ei fod wedi cael goleuni, "yn yr oes oleu hon," i ffurfio barn yn groes i benderfyniadau awdurdodol yr holl Eglwys apostolaidd. Y mae ynfydrwydd y gwrthryfeliad meddyliol, a'r afreoleidd-dra ysprydol yma wedi treiddio trwy Gymru yn y blynyddoedd hyn. Gellir dywedyd am lawer o'r fath ymffrostwyr, yn areithwyr ac yn ysgrifenyddion, yr hyn a ddywedwyd am ddynion ddeng mil mwy gwybodus, (Rhuf. i. 22,) "Pan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffyliaid." Gwelid ffolineb a rhyfyg yr ynfydion hunandybiol yma ar unwaith pe traethent eu syniadau yn yr un modd mewn pethau daearol. Beth a feddylid am ddinesydd anwybodus, anllythyrennog, pe dewisai ymddibynu ar ei farn fechan ei hunan, ynghylch rhyw bwngc dyrys yn y gyfraith wladol, yn hytrach na chydnabod awdurdod barn y llŷs uchaf yn y deyrnas? Mwy ynfyd byth ydyw i ddynion anwybodus gablu barnedigaethau yr Eglwys Gyffredinol. Nid hawl i ffurfio barnedigaethau sydd gan ddyn unigol, ond hawl i'w chwilio, a'u deall, a'u dilyn.

Y mae yn anoddefadwy bron i glywed dynion hollol anwybodus yn cablu ac yn gwrthddywedyd ymadroddion iachus y Catecism a ffurfiwyd ac a gymmeradwywyd gan ddoethineb holl "orseddfeingciau barn" Eglwys apostolaidd y wlad hon. Nid ydyw y syniadau afreolaidd a gwrthryfelgar a daenir yng nghylch rhyddid diderfyn y farn unigol, a'r annogaethau diddiwedd i bob dyn gwybodus ac anwybodus rodio wrth fodd ei galon, a gwneyd yr hyn a fyddo uniawn yn ei olwg ei hunan, mewn pethau crefyddol, ddim yn hytrach nag un o ddichellion cyfrwys rhai o wehilion yr offeiriadaeth Jeroboamaidd i dwyllo y bobl i wadu awdurdod cyfreithlon y "gorseddfeingciau

barn" a osodwyd yn Jerusalem, ac i'w denu i ymlynu wrth gyfundraethau diawdurdod y Daniaid a'r Bethel-iaid. Os ydym ni am gael goleuni, gweddïwn am ein gwaredu rhag yspryd tywyll balchder a rhyfyg ac hunanoldeb. (Salm xxv 9,) "Y rhai llariaidd a hyfforddа efe mewn barn: a'i ffordd a ddysg efe i'r rhai gostyngedig." Cyn myned i mewn i deyrnas nefoedd rhaid ymostwng i farn eu "gorseddfeingciau" fel plentyn bach. Duw a roddo ras i ni i chwilio ac i ddysgu barnedigaethau Jerusalem. (Salm cxix. 7.) "Clodforaf di âg uniondeb calon, pan ddysgwyf farnedigaethau dy gyfiawnder."

III. Deisyfiadau dros yr Eglwys.

"Dymunwch heddwch Jerusalem; llwydded y rhai a'th hoffant."

"Heddwch fyddo o fewn dy ragfur, a ffyniant yn dy balasau."

"Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion y dywedaf yn awr, Heddwch fyddo i ti."

"Er mwyn tŷ yr Arglwydd ein Duw y ceisiaf i ti ddaioni."

Y mae y Salmydd, yn y lle cyntaf, yn deisyfu heddwch i Jerusalem. Yr oedd ei heddwch yn ymddibynu ar gydgordiad a chydweithrediad y llwythau oedd yn esgyn tua'i phyrth i gydaddoli mewn cymdeithas weledig, yn yr un cyssegr, ger bron yr UN Arglwydd, yr Hwn oedd wedi peri i'w enw aros yno. Yr oedd gan y llwythau hyn eu gwahanol sefyllfaoedd o fewn terfynau Israel, eu hamgylchiadau lleol, ac o ganlyniad hefyd eu golygiadau neillduol. Ond yr oedd y cydesgyniad i Jerusalem i gyd-addoli mewn cymdeithas, o flaen Trugareddfa yr un Tad, ac o fewn yr UN tŷ, yn eu gwnethur ac yn eu cadw hwynt yn un teulu. Yr oedd gogoniant bywyd Jerusalem yn ymddibynu ar barhad heddwch a chydweithrediad y llwythau. Pan yr oedd anghydfod rhwng y llwythau, yr oedd gelynion Sïon yn llawenhau.

Y mae y Salmydd, pan yn dymuno heddwch Jerusalem, yn deisyfu gweled ffyniant o fewn ei phalasau. Y mae heddwch a ffyniant yn aml yn cydfyned â'u gilydd. Pan fydd byddin yn llwyddiannus, y mae y cattrodau a'r cadfridogion oll yn eu lleoedd yn cydweithio yn galonnog â'u gilydd. Ond pan fyddo ffyniant wedi gadael eu banerau, yn aml iawn y mae y milwyr yn dechreu ymrafaelio, gan feio y naill y llall, nes y mae heddwch mewnol yn diflannu. Pan yr oedd meibion Jacob yn dioddef caledi, yn nydd yr ymweliad, oherwydd eu pechod yn erbyn Joseph, yn y fan dechreuasant yn eu cyfyngdra ddannod eu ffaeleddau i'w gilydd. Felly y mae wedi bod erioed yn hanes yr Eglwys. Y mae ffyniant a heddwch yn cydgerdded.

Yn Eglwys Apostolaidd ein gwlad ninnau y mae gwahanol lwythau yn esgyn i fynu i'r un Jerusalem. Y maent megis gwahanol deuluoedd—pob un yn nodedig am ryw weddnod neillldruol—wedi ymffurfio ac ymliwio yn ei gwynebddull duwinyddol ar gyffelybiaeth delw, ac yn aml hefyd wedi ymgyfenwi ar enw rhyw athraw neu arweinydd ymhlith meibion Jacob. Y mae gelynion yr Eglwys yn hoffi dywedyd nad ydyw y llwythau hyn ddim yn perthyn i'r UN tŷ, o herwydd nad ydynt yn hollol o'r un lliw a gwynebddull Eglwysig. Ond y mae y meibion oll yn cadw eu perthynas a'u breintiau fel aelodau un teulu, a chyfrannogion gobaith yr un etifeddiaeth, cyhyd ag y parhaont i gydnabod awdurdod yr un Tad, ac i gyd-ymborthi ar yr un bara, o amgylch yr un ford, er bod gan bob un o honynt ei liw, a'i wynebpryd, a'i gorphlun neillduol ei hunan. Felly eu parhad yn athrawiaeth ac yng nghymdeithas yr Apostolion, a chyfrannogi ger bron yr UN allor o'r UN bara, ac aberthu gweddïau ger bron gorsedd yr UN Tad, sydd yn gwneuthur yr holl lwythau o fewn cymmundeb ein Heglwys yn UN "teulu y ffydd."

Pa fodd y mae sicrhau heddwch y llwythau hyn? Trwy ddylanwad Yspryd Crist, diddanwch yr Hwn yr oedd St. Paul yn ei ddeisyfu dros yr Eglwys yn Phi-

lippi, pan y dywedodd, (Phil. ii. 1—4,) "Od oes dim cymdeithas yr Ysprydd . . . cyflawnwch fy llawenydd. fel y byddoch yn meddwl yr UN peth, â'r UN cariad genych, yn gyttun, yn synied yr UN peth. Na wneler dim trwy gynnen neu wagogoniant, eithr mewn gostyngeiddrwydd, gan dybied eich gilydd yn well na chwi eich hunain. Nac edrychwch bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo eraill." Y mae heddwch yr Eglwys yn cael ei aflonyddu pan y mae un llwyth yn edrych cymmaint ar y doniau a'r golygiadau a'r arferion ag sydd yn hoff ganddo o fewn cylch ei randir ysprydol ei hun, nes y mae yn anghofio fod llwythau eraill wedi cael yn eiddo iddynt hwy weithrediadau a gweinidogaethau ac ymadroddion eraill a gwahanol, y rhai y mae yr Ysbryd yn rannu iddynt o'r neilldu. Y mae Yspryd Crist yn "cyddymheru y corph . . . . fel na byddai anghydfod yn y corph; eithr bod i'r aelodau ofalu'r un peth dros eu gilydd." (1 Cor. xii. 25.) Felly, frodyr, gweddiwch am yr Yspryd a alluoga y llwythau o fewn ein Heglwys i weled doniau ysprydol eu gilydd, fel y byddo heddwch o fewn ei rhagfur, ar ba un y safwn i wynebu y gelyn.

Y mae yn unol â threfn fod gwahanol nodweddion yn perthyn i'r gwahanol lwythau meddyliol a gweithrediadol o fewn yr Eglwys. Y mae rhai wedi bod yn yr Eglwys ymhob oes ag ydynt wedi eu cymhwyso i filwrio yn llewaidd er amddiffyn ei hegwyddorion a darostwng ei gelynion. Dawn y rhai hyn yw dawn Judah. (Gen. xlix. 8,) "Tithau Judah, dy frodyr a'th glodforant di: dy law fydd yngwarr dy elynion; meibion dy dad a ymgrymmant i ti. Cenaw llew wyt ti, Judah." Y mae llwyth arall wedi cael dawn i adeiladu yr Eglwys, trwy weithio yn amyneddgar gydag ymroddiad egniol. Yn ein Heglwys ni y mae lliaws o'r gweithwyr tawel di-rwysg a difefl hyn. (Gen. xlix. 14, 15, "Issachar sydd asyn asgyrnog, yn gorwedd rhwng dau bwn; ac a wel lonyddwch mai da yw." Pwy nad ŵyr am lawer offeiriad tawel yn gorwedd rhwng pwn y weinidogaeth a phwn gofalon arianol yr

Eglwys yn ei blwyf? Y mae rhai eraill yn ddynion call i wneuthur trefniadau er gwellhau a diwygio cymdeithas. Y maent yn hoffi darostwng pechod oddiar ei farch uchel, trwy ymosodiadau anuniongyrchol; (Gen. xlix. 17,) "Dan fydd yn sarph ar y ffordd, a neidr ar y llwybr; yn brathu sodlau y march, fel y syrthio ei farchog yn ol." Y mae llwyth arall yn fwy poblogaidd nag un o'r rhai hyn, oherwydd eu bod wedi cael gallu i effeithio ar y bobl trwy breswylio yn agos iawn i ffynnon y teimladau crefyddol. (Gen. xlix. 22,) "Joseph fydd gangen ffrwythlon, cangen ffrwythlon wrth ffynnon." Y mae holl ddoniau a galluoedd neillduol y gwahanol lwythau yn anghenrheidiol er adeiladaeth a chadarnhad Eglwys Dduw. (Gen. xlix. 28.) "Bendithiodd efe hwynt: pob un yn ol ei fendith y bendithiodd efe hwynt." Pan gydnabyddir y gwirionedd yma, bydd heddwch yn Jerusalem, a bydd yr holl lwythau yn cyd-esgyn i'w phyrth, yn dwyn pob un ei offrwm o wasanaeth, a cheir tarddiad newydd ac helaethach o ddyfroedd yr Yspryd i ddyfnhau yr afon, ffrydiau yr hon, (Salm xlvi. 4,) "a lawenhant ddinas Dduw, cyssegr preswylfeydd y Goruchaf."

Y mae anghenrhaid ysprydol wedi ei osod ar y rhai a hoffant ac a ddymunant heddwch Jerusalem, i geisio daioni iddi hi "er mwyn tŷ'r Arglwydd." Os na cheisir daioni i Jerusalem trwy ddiwygio yr hyn sydd wallus o fewn ei muriau oherwydd dirywiad amser a chyfnewidiad amgylchiadau, y mae gogoniant yr Arglwydd yn cael ei gymmylu, ac nid ydyw goleuni ei wynebpryd yn ymddisgleirio o fewn ei dŷ. Am hynny "er mwyn tŷ'r Arglwydd" y mae yn rhaid trwy ddiwygiadau prydlawn geisio daioni i'r Eglwys.

Y mae yn ddigon hawdd i bob dyn synhwyrol a diduedd weled mai y fendith fwyaf anghenrheidiol er sicrhau "daioni" Jerusalem ydyw adnewyddiad undeb crefyddol ar ammodau cyfiawn. Heb son am y colledion annhraethol mwy pwysig, y mae ymranniadau yn achosi colled dirfawr yn nhreuliad arian a llafur.

Y mae cenfigen y pleidiau yn gwastraffu ugeiniau o filoedd yn ddiles. Er engraiflt:—aml iawn yn y blynyddoedd a aethant heibio, bu mewn llawer ardal un ysgol dda ddigonol i roddi addysg ragorol i'w holl blant. Ond yr oedd cenfigen Ephraim yn ei symbylu yn ddibaid i godi ysgol arall. O ganlyniad yn lle yr un ysgol dda y mae dwy wael, yn ymladd am eu bywyd i ladd eu gilydd, nes ar y diwedd, ar ol hir wendid, y mae Ephraim yn taflu ei ysgol ar y plwyf. Fel hyn y mae y wlad yn talu yn ddrud am waith cenfigen.

Aml iawn mewn tref fechan gwelir lliaws o addoldai gwael yr olwg, ac ammhrydferth eu cynlluniad, yn debyccach i weithdai masnachol nag i deml Jerusalem. O'u mewn y mae dynion parod eu lleferydd, ond hollol arwynebol yn eu gwybodaeth, yn ceisio dysgu y bobl ag ydynt yn llawn mor ddysgedig a'u dysgawdwyr. Y maent yn rhyfygu esbonio a beirniadu y Testament Newydd, heb wybod ond y nesaf i ddim, am yr iaith ymha un yr ysgrifenwyd. Efallai fy mod yn camgymmeryd, ond yr ydwyf yn llwyr gredu nad oes deuddeg o bregethwyr Ymneillduol, dros hyd a lled Cymru, yn alluog i ddeall y Testament Newydd i raddau beirniadol yn ei iaith wreiddiol. Beth ydyw yr achos? Nid oes modd cael athraw dysgedig am gyflog crefftwr dydd-weithiol. Y mae deddf raglunïaethol y gofyniad a'r cyflenwad yn rheoli yn y cylch hwn fel ymhob cylchoedd arall o waith dynol. "Teilwng i'r gweithiwr ei gyflog." (St. Luc x. 7.) Pe byddai undeb crefyddol wedi ei adnewyddu yn y dref honno, beth fyddai y canlyniad? Heb fwy o draul, gwelid yno UN deml ardderchog, a gwŷr gwir ddysgedig o'i mewn yn pregethu y Gair gydag awdurdod, ac yn gweinyddu y Sacramentau yn iawn ac yn ddyladwy; ac aberth o foliant gogoneddus mewn prydferthwch sancteiddrwydd yn cael ei offrymmu i'r UN Arglwydd gan dyrfa o frodyr yn addoli ynghyd, dan ddylanwadau bendigedig yr UN Yspryd. Y mae pawb yn ei galon yn rhoddi adsain i foliant undeb. (Salm cxxxiii. 1,) "Wele mor ddaionus ac mor hyfryd yw trigo o frodyr

ynghyd!" Ond pa fodd y mae cael enneiniad Yspryd yr undeb daionus a hyfryd? Pa le y mae gwlith ei ddylanwadau yn disgyn? Nid oes modd ei gael ond trwy gydnabod urddau rheolaidd y rhai a alwyd gan Dduw, "MEGIS AARON." Nid oes un lle arall ar ba un y disgyna bendithion ei wlith ond "Y LLE A DDEWISODD YR ARGLWYDD" o fewn cyfundrefn ei UN Eglwys apostolaidd. (Salm cxxxiii. 2, 3.) "Y mae fel yr ennaint gwerthfawr ar y pen, yn disgyn ar hyd y farf, sef barf Aaron; yr hwn oedd yn disgyn hyd ymyl ei wisgoedd ef: Fel gwlith Hermon, ac fel gwlith yn disgyn ar fynyddoedd Sïon, canys YNO y gorchymmynodd yr Arglwydd y fendith." Pa le y mae yr ennaint wedi cilio o'n plith? Y mae wedi ei golli trwy y gwrthryfel a'r annhrefn ag sydd wedi rhwygo gwisgoedd Aaron trwy wadu awdurdod urddau rheolaidd, gan ofyn yr hen gwestiwn sismaticaidd, (Numeri xvi. 3,) "Paham yr ymgodwch goruwch cynnulleidfa'r Arglwydd?" Pa le y mae y gwlith hyfryd a ddylai fod yn meithrin llysiau peraroglaidd gardd yr Arglwydd? Y mae wedi ei sychu gan wrês tanllyd y zel pleidiol a'r sectyddiaeth penboeth sydd yn rhannu pob pentref yn ein gwlad yn erbyn ei hun.

Wrth edrych ar ddrygau mawr ein hymranniadau nid gwiw ydyw rhoddi y bai oll ar un ochr. Ar y cyntaf yr oedd Rehoboam i'w feio gymmaint agos a'r brenhin ymneillduol, er nad yw wedi ei nodi yn yr un dull ofnadwy fel awdwr pechod. Felly hefyd yr oedd beiau ar lywiawdwyr yr Eglwys. Y bai mwyaf yn yspryd Ymneillduaeth ydyw *cenfigen*. Bai llywiawdwyr yr Eglwys ydyw *cyfyngu* gormod ar weithrediadau dynion sydd yn ewyllysgar i wneuthur daioni. Y mae yn rhaid cael diwygiad ar y ddwy ochr. Y mae yn rhaid i'r Ymneillduwyr beidio a chau eu llygaid mewn dallineb ysprydol rhag gweled pechod Ymneillduaeth.

Y mae yn rhaid iddynt, os nad ydynt am yrru ein gwlad yn gaethglud i ddwylaw anffyddiaeth, ym-

ostwng i awdurdod tŷ Aaron, er mwyn cael yr ennaint gwerthfawr sydd yn disgyn ar ymyl ei wisgoedd. Y mae yn rhaid iddynt ymostwng i gydnabod nad oes dim modd troseddu deddf undeb heb ddioddef afiechyd ysprydol, yn fwy nag y gall y corph dorri deddf cymmedroldeb heb ddioddef afiechyd corphorol. Pan y deuant i'r tir yma, ymostyngant i dderbyn anfoniad i un winllan yr Eglwys, gan olynwyr yr anfonedigion cyntaf, y rhai yn unig sydd wedi etifeddu awdurdod i anfon eriall. Yr wyf yn gobeithio y bydd lle yn y winllan yn cael ei bennodi i bob dyn a fyddo yn alluog ac yn awyddus i lafurio, er achub eneidiau. Duw a roddo ras i'r Esgobion i gofio mai eu swydd yw porthi y praidd, gan roddi golwg arnynt (1 Pedr v. 3,) "nid fel rhai yn tra arglwyddiaethu ar etifeddiaeth Dduw." Golygfa hardd a bendigedig fyddai gweled yr holl gynnulleidfaoedd mewn plwyf yn UN frawdoliaeth ysprydol wedi cael eu dysgu yn eu synagogau lleol, yn myned i fynu i deml Eglwys y plwyf i gydymgrymmu yngwydd yr un Arglwydd, ac i gydymborthi ar yr UN manna nefol. Er mwyn cael undeb y mae yn rhaid i'r Ymneillduwyr ddychwelyd yn ol. Yn rhinwedd eu zel a'u gweithgarwch, bydd ganddynt ddylanwad i roddi gwres adnewyddol yng nghorph yr Eglwys, i'w galluogi i fwrw heibio ei gwendidau, i helaethu ei gweithrediadau, ac i amlygu yn fwy cyflawn olud gogoniant Crist.

Yn awr y mae cenfigen Ephraim Ymneillduol yn lladd ei fywyd ysprydol, ac yn ei yrru i ymgyngreirio âg anffyddwyr. Ar yr ochr arall, y mae cyfansoddiad yr Eglwys, o herwydd y gwaed sydd yn rhedeg allan o'i chorph rhwygedig trwy Ymneillduaeth, yn rhy oeraidd a rhy ddiffygiol mewn nerth bywydol i fwrw ei gwendidau, ac i argyhoeddi y cenhedloedd anffyddol. Tywallted yr Arglwydd yspryd undeb ar ei bobl, ac yna (Esay xi. 13, 14) "Ni chenfigenna Ephraim wrth Judah, ac ni chyfynga Judah ar Ephraim, ond hwy a ehedant ar ysgwyddau'r Philistiaid tua'r gorllewin; ynghyd yr yspeiliant feibion y dwyrain: hwy a osodant eu llaw

ar Edom a Moab, a meibion Ammon fydd mewn ufudd-dod iddynt."

Y mae gofal apostolaidd ein Pen bugail yn yr Esgobaeth hou wedi cychwyn yn ddiweddar fwy nag un symmudiad daionus. Er mwyn cadarnhau barrau pyrth Sion, y mae yn rhaid cael "rhai cymmwys i wasanaethu yn sanctaidd weinidogaeth yr Eglwys". . . ."fel y byddo iddynt trwy eu buchedd a'u hathrawiaeth osod allan ogoniant Duw, a hyfforddio iachawdwriaeth pawb oll." Yn y dyddiau a aethant heibio, y mae diffyg mawr wedi bod. Yn y dyddiau gynt y mae gormod o ddynion di-ddawn, di-allu a di-weddi, wedi bod yn ymgrymmu yn wasaidd er mwyn ymwthio i weinidogaeth yr Eglwys, gan ddywedyd, (1 Samuel ii. 36) "Gosod fi yn awr mewn rhyw offeiriadaeth, i gael bwytta tammaid o fara." Ond er ys talm y mae yr amser tywyll yna wedi myned heibio, a dyddiau gwell wedi gwawrio.

Y mae lliaws mawr o Offeiriaid doniol, dysgedig, a duwiol yn gweithio yn awr ar y maes yng Nghymru. Ond y mae anghen am lawer yn ychwaneg o weithwyr, canys y mae cynhauaf yr Eglwys wedi aeddfedu. Y mae y bobl wedi blino ar grwydriadau dyryslyd Ymneillduaeth, ac yn hiraethu am gael eu bugeilio o fewn corlan yr Eglwys, gan weinidogion cymhwys i borthi y praidd, ac (St. Matth xxiv. 45) "i roddi bwyd iddynt mewn pryd." (St. Matth. ix. 36, 37, 38,) "Pan welodd Efe y torfeydd, Efe a dosturiodd wrthynt, am eu bod wedi blino, a'u gwasgaru, fel defaid heb ganddynt fugail. Yna y dywedodd Efe wrth ei ddisgyblion, Y cynhauaf yn ddiau sydd fawr, ond y gweithwyr yn anaml: am hynny attolygwch ar Arglwydd y cynhauaf *anfon* gweithwyr i'w gynhauaf." Y mae y geiriau yna a lefarwyd am y torfeydd oedd wedi eu rhannu rhwng y Phariseaid a'r Sadduceaid, a'r pleidiau eraill, yn desgrifio agwedd grefyddol Cymru y dyddiau hyn, pan y mae y torfeydd wedi blino ar y crwydriadau sectyddol, ac yn hiraethu am weinidogaeth apostolaidd neu ANFONEDIG. Yn wir y mae y meusydd wedi

myned yn "wynion i'r cynhauaf." Ond y mae achos am ychwaneg o weithwyr galluog i fedi; a darparu lliaws o offeiriaid cymmwys ydyw gofal cyntaf y rhai sydd yn ceisio daioni i Jerusalem.

Y mae Cymdeithas wedi ei sefydlu yn yr Esgobaeth hon i alluogi yr Esgob i gymhwyso bechgyn ieuaingc talentog, athrawaidd a duwiol, i dderbyn galwad ac anfoniad i faes y weinidogaeth. Os bydd Samuel neu Timotheus yn tyfu i fynu mewn rhyw ardal, caiff alwad i fod yn "weinidog i'r Arglwydd." Trwy weithrediad y Gymdeithas hon bydd corph yr Eglwys yn myned allan fel ei Harglwydd i alw ac i ddysgu y rhai a gyflawnant y gwaith apostolaidd; ac hefyd bydd yn dilyn ei esiampl Ef trwy eu cynnal â bara wedi ei greu a'i amlhau trwy allu nerthol ei Yspryd yn plannu cariad ac haelioni yn aelodau yr Eglwys.

Nid oes modd i'r rhai sydd yn ceisio daioni Jerusalem beidio dymuno gweled gwybodaeth mwy cyffredin am ei "deddfau a'i barnedigaethau" ymhlith ei phreswylwyr. Er mwyn sicrhau hyn y mae yn rhaid addysgu yr Offeiriaid yn drwyadl yn egwyddorion apostolaidd yr Eglwys. Y mae gormod o lefain cyfeiliornadau Ymneillduol wedi dyfod i mewn i lygru bywyd yr Eglwys, fel yr oedd Israel Jeroboam gynt yn llygru Judah. Pan roddir addysg helaethaeh i'r Offeiriaid ieuaingc, gosodir allan ganddynt egwyddorion apostolaidd yr Eglwys yn fwy pur. Y mae Offeiriaid diffygiol mewn dysg bron bob amser yn dynwared ysgogiadau corphorol a meddyliol, ac yn ail adrodd chwedlau anorphen athrawiaeth amhennodol ac arwynebol y weinidogaeth Ymneillduol, ac yn tywylln cynghor trwy drin "ynfyd ac annysgedig gwestiynau," yn lle llefaru "y pethau a weddo i athrawiaeth iachus." Y mae anghen ar yr Eglwys am Offeiriaid dysgedig, wrth ba rai y gallo ddywedyd yn hyderus, (2 Tim. i. 13,) "Bydded gennyt ffurf yr ymadroddion iachus, y rhai a glywaist gennyf fi, yn y ffydd a'r cariad sydd yng Nghrist Iesu;" a rhai a fyddont yn debyg o ufuddhau i'w Siars, (1 Tim. 15, 16.) "Myfyria ar y pethau hyn,

ac yn v pethau hyn arhos; fel y byddo dy gynnydd yn eglur i bawb. Gwylia arnat dy hun, ac ar yr athrawiaeth; arhos ynddynt; canys os gwnai hyn, ti a'th gedwi dy hun a'r rhai a wrandawant arnat."

Offeiriaid o'r yspryd yna fydd yn deilwng i gael eu hanfon gan gorph dirgeledigaethus Ei Eglwys Ef, yr Hwn a ddywedodd, (St. Ioan vii. 16,) "Fy nysgeidiaeth nid eiddo fi yw, eithr eiddo yr Hwn a'm hanfonodd i." Am weinidogion i athrawiaethu yn enw yr Eglwys a'u hanfonodd, ac nid yn eu henwau eu hunain, (St. Ioan v. 43,) y gweddïa pawb sydd yn ceisio daioni Sïon.

Crybwyllaf am ddiwygiad arall a fyddai er daioni. Y mae llawer iawn o "ddeddfau a barnedigaethau" ein Heglwys apostolaidd wedi myned i ebargofiant am amser, fel y bu yn aml yn Israel. Nid ydyw yr Offeiriaid na'r cynnulleidfaoedd yn rhodio ynddynt. Byddai dychweliad yn ol at y deddfau awdurdodedig yn "ddaioni" mawr i Jerusalem. Enwaf un "ddeddf" yn neillduol. "A phob Offeiriad a Diacon sydd rwymedig i ddywedyd beunydd y Foreol a'r Brydnhawnol Weddi, naill ai yn neillduol, ai ar osteg, oddieithr bod rhwystr arnynt trwy glefyd, neu o ran achos arall tra anghenrheidiol." Y mae pob Offeiriad a Diacon a fyddo yn ufuddhau i'r ddeddf hon, yn aberthu yn feunyddiol aberth o fawl a gweddi a diolch, yn darllen llawer o Salmau Dafydd a chaniadau y cyssegr, a phedair pennod o'r Ysgrythyr Sancteiddlan. Onid ydyw y drefn hon yn tueddu i'w cadw mewn yspryd gweddi, ac i'w cynnysgaeddu â goleuni Ysgrythyrol? Nis gallaf lai na chredu, pe gwelid yn dda gan y rhai sydd yn eistedd ar "orseddfeingciau barn" yn yr Eglwys i wasgu o'r newydd rwymedigaeth yr hen ddeddf hon ar gydwybodau yr Offeiriaid, y byddai yn "ddaioni" anrhaethol. Yr ydwyf yn credu y byddem yn fuan iawn yn cael gweled dysgawdwyr "eadarn yn yr Ysgrythyrau," (Act. xviii. 24) a dyfalbarhaus mewn gweddi, "yn gweinidogaethu gyda nerth ac eglurhad

yr Yspryd, ac yn rhoddi "tystiolaeth o adgyfodiad yr Arglwydd Iesu."

Byddai yn ddaioni mawr hefyd i eneidiau lleygwyr yr Eglwys, ped ymostyngent yn fwy ffyddlon i ufuddhau i'r hen ddeddfau a barnedigaethau. Y mae yr Eglwys yn gorchymyn iddynt fynychu y deml i aberthu "Gweddi Gyffredin." Felly yr oedd Eglwyswyr yr oes apostolaidd "beunydd yn parhau yn gyttûn yn y deml," (Act. ii. 46.) Ond yn ein dyddiau ni, ar yr awr weddi, ac hyd yn nod ar awr gweinyddiad y Cymmun Bendigaid, ychydig iawn sydd yn ymgynnull os na bydd pregeth "gan un hyfrydlais ac yn canu yn dda." (Ezec. xxxiii. 32.) Yn y weddi a'r cymmun y mae eneidiau yn myned "ger bron yr Arglwydd" i'w addoli; yn y bregeth nid ydynt ond yn gwrando llais dyn er eu dyddordeb eu hunain. Da iawn ydyw gwrando ar y dystiolaeth, ond gwell o lawer ydyw addoli. Trwy aberthu addoliad y mae cyfoethogi y bywyd ysprydol o'n mewn, ac yn enwedig trwy ymborthi yn ysprydol ar "gorph drylliedig Iesu glân." Beth yw yr achos bod Eglwyswyr yn cilio oddiwrth "y deddfau a'r barnedigaethau" mwyaf pwysig a ordeiniwyd iddynt i rodio ynddynt? Dylanwad y llwythau Ymneillduol. Yn eu cyfundraethau, y mae y pwlpud a'i gynnwysiadau wedi cymmeryd lle yr orseddfaingc a'r allor. Addoliad yn y capel ydyw gwrando y bregeth. Gwyliwch, frodyr, rhag y surdoes daearol a dinystriol hwn. (Jeremi vi. 16. "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Sefwch ar y ffordd ac edrychwch, a gofynwch am yr hen lwybrau, lle y mae ffordd dda, a rhodiwch ynddi, a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau. Ond hwy a ddywedasant, Ni rodiwn ni ynddi."

Sylwaf cyn terfynu ar un daioni a ddymunwn weled yn cael ei geisio gan y rhai a hoffant yr Eglwys. Y mae y llywodraeth wladol wedi ei chadarnhau yn ddirfawr yn y blynyddoedd diweddar, trwy roddi hawl i'r bobl gael llais a chynrychiolaeth yn y senedd. Y mae y llywodraeth yn sefyll yn gadarn, o herwydd fod cynnifer o bennau teuluoedd y wlad yn teimlo fod gan-

ddynt ran yn ei gweithrediadau. Dymunwn weled y bobl leygol yn yr Eglwys yn cael mwy o lais yn llywodraethiad y rhandir daearol a berthyn iddi. Nid oes hawl gan leygwyr i roddi eu dwylaw ar yr Arch trwy newid yr athrawiaethau, neu weinyddu y Sacramentau. Ond y mae ganddynt hawl i gael llais yn y trefniadau Eglwysig sydd o'r tu allan i dŷ'r Arglwydd.

Y mae urddau yr Offeiriaid yn perthyn i drefn gyssegredig y tŷ, ond nid ydyw gwyneb neu bersonolaeth y dyn ddim felly. O ganlyniad, er nad oes ganddynt ddim hawl i gyflwyno urddau, y mae gan y bobl leygol hawl i gael llais yn newisiad y *dyn* sydd i bregethu y gair a gweinyddu y Sacramentau yn eu plith. Carwn weled yr hawl yma yn cael ei gydnabod yn fwy cyffredin gan y rhai sydd yn pennodi Offeiriaid plwyfol.

Ni byddai er lleshad yr Eglwys i'r bobl gael yr etholiad yn hollol ac yn uniongyrchol yn eu dwylaw eu hunain. Byddai hynny yn llygru yr Eglwys trwy ddwyn i mewn ymgeisyddiaeth a chynhyrfiadau etholiadol. Ond byddai yn ddaioni i'r Eglwys pe rhoddid hawl i'r cymmunwyr mewn plwyf, pan fyddai y fywioliaeth yn wag i anfon enwau tri o Offeiriaid cymmeradwy ganddynt at yr Esgob, neu y noddwr Lleygol, er mwyn iddo ef bennodi yr un a ddewisai allan o'r tri.

Credaf y byddai mabwysiadu rhyw drefn fel yna yn "ddaioni" i'r noddwr, i'r plwyfolion, ac i'r Offeiriaid. Byddai yn ysgafnhau baich cyfrifoldeb y noddwr trwy ei hyfforddio a'i gynnorthwyo i ddewis Offeiriad cymmeradwy gan y gynnulleidfa. Byddai yn tueddu i roddi boddlonrwydd i'r bobl trwy roddi llais iddynt yn llywodraeth yr Eglwys Blwyfol. Y mae llawer o Blwyfi wedi bod yn dioddef am flynyddoedd golled Ysprydol trwy bennodiad dyn hollol anghymmhwys ac anghymmeradwy heb ddawn na dysg na difrifoldeb ysprydol. Byddai yn iawn i gymmunwyr y Plwyf gael gallu i ddiogelu eu hunain yn erbyn y fath appwyntiad.

Gwnai y cyfnewidiad hefyd les i'r Offeriaid. Byddent

yn sicr o weithio yn fwy effeithiol dros y bobl, ac ymdrechu mwy i ddylanwadu ar y bobl, pe teimlent fod y bobl o'u hewyllys wedi ymddiried eu heneidiau i'w gofal. Byddai y drefn yn annogaeth i offeiriaid llafurus a difrifol ac yn ddychryn i'r diallu a'r anghymmwys. Buan yr alltudid y rhywogaeth yna allan o'r weinidogaeth i ddilyn galwedigaethau daearol mwy cysson a'u cynheddfau a'u cymmeriadau.

Y mae arwyddion yr amseroedd yn galw ar y rhai a hoffant Jerusalem i fod âg arfau yn eu dwylaw, ac i sefyll yn gedyrn ar ei muriau. Y mae ei gelynion yn ymgynghreirio yn ei herbyn, gan ddywedyd, "Cymmerwn i ni gyfanneddau Duw i'w meddiannu." (Salm lxxxiii. 12.) Ar hyd a lled Cymru y mae ysgrifenwyr ac areithwyr yn ymdrechu i greu yspryd aflonydd, i gynhyrfu nwydau yspeilgar, ac i hau egwyddorion dinystr chwyldroadol. Beth yw dyledswydd ceidwaid a gwylwyr y ddinas? Yn lle gorwedd "fel cwn mudion, heb fedru cyfarth; yn cysgu, yn caru heppian," dylent sefyll yn wyliadwrus ar yr amddiffynfeydd. Dylent ymuno mewn Cymdeithas Amddiffynol ymhob Esgobaeth, er mwyn casglu trwy gydweithrediad cynlluniadol, yr adnoddau a'u galluogant i ddylanwadu ar y wlad ac ar y Senedd, i wrthweithio effeithiau gwenwynig yspryd chwyldroad, cenfigen, ac yspeilgarwch. Ymhob Esgobaeth, ymhob ardal, ac ymhob plwyf, ymbarottoed cyfeillion yr Eglwys yn llu banerog, i wrthwynebu y gelyn, i amddiffyn ei rhagfuriau, ac i gyflenwi pob bwlch yn ei chaerau. Y mae baneran Assyria eisoes yn taflu eu cysgodion o'u blaen, a thwrf carnau y meirch yn disgyn ar glustiau ein gwyliedyddion. Meibion Eglwys Apostolaidd Cymru! Deffrowch weithian o drwmgwsg eich difatterwch. "Dyrchafwn faner yn enw ein Duw." (Salm xx. 5.)

Gweddiwn lawer, frodyr, am lwyddiant pob symmudiad a fyddo er daioni ysprydol yr Eglwys, ac er amlygiad gogoniant Duw o'i mewn. Ymdrechwch i fod eich hunain (1 Pedr ii. 5,) "megis meini

bywiol wedi eich adeiladu yn dŷ ysprydol.'. Ac yna byddwch yn sicr o weddio a gweithio a gwylied er daioni Jerusalem. Gweddiwch am bob adnewyddiad a'i gwnelo hi yn fwy prydferth, nes y byddo yn "Jerusalem newydd," (Dat. xxi. 2,) "wedi ei pharottoi fel priodasferch wedi ei thrwsio i'w gwr." Er mwyn profi ei llawenydd tragywyddol rhaid i chwi gael gogoniant Crist i breswylio trwy ei Yspryd o'ch mewn. Bydded llais eich gweddiau dros Jerusalem yn esgyn i fynu beunydd. (Esay. lxii. 6. 7.) "Y rhai ydych yn cofio'r Arglwydd na ddistêwch, ac na adêwch ddistawrwydd iddo, hyd oni sicrhao, ac hyd oni osodo Jerusalem yn foliant ar y ddaear."

---

ARGRAFFWYD GAN H. HUMPHREYS, CAERNARFON.